# Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

## 2023-2024

# Cynnwys


**Rhagair gan yr Athro Simon Gaskell, Cadeirydd Bwrdd QAA ........ 1**
**Rhagair gan Vicki Stott, Prif Weithredwr QAA ........ 2**
**Yr Adroddiad Strategol ........ 4**
Pwrpas QAA ........ 4
**Yr hyn a wnawn ........ 4**
Safonau ........ 4
Sicrwydd a gwelliant ........ 5
Gweithgareddau rhyngwladol ........ 8
Arweinyddiaeth ........ 9
Edrych ymlaen ........ 10
**Yr adolygiad ariannol ........ 11**
Y canlyniadau ........ 11
Yr incwm ........ 11
Y gwariant ........ 11
Y fantolen ........ 12
Y polisi cronfeydd wrth gefn ........ 12
Rheoli'r trysorlys ........ 14
**Adroddiad y Cyfarwyddwyr ........ 15**
Strwythur, trefn lywodraethol a threfn reoli ........ 15
Llywodraethu ........ 16
Y strwythur cyfundrefnol ........ 21
Cyfeiriadau a manylion gweinyddol ........ 23
**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau ac Ymddiriedolwyr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch ........ 25**
Ein barn ........ 25
Sail ein barn ........ 25
Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol ........ 25
Gwybodaeth arall ........ 25
Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant cyfunol) ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 ........ 29
Y mantolenni ar 31 Gorffennaf 2024 ........ 30
Y datganiad llif arian ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 ........ 31
**Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 ........ 32**
**Rhestr termau ........ 58**

# Rhagair gan yr Athro Simon Gaskell, Cadeirydd Bwrdd QAA

Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i wasanaethu fel Cadeirydd Bwrdd QAA ers 2019, felly erbyn amser yr adroddiad blynyddol nesaf byddaf wedi cyrraedd diwedd fy ail dymor a byddaf wedi trosglwyddo'r awenau i Gadeirydd newydd, a fydd yn ymuno â'r Asiantaeth mewn cyfnod diddorol iawn. Mae 2023-24 wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol iawn i'r DU, i'r sector addysg uwch ac i QAA.

Mae newid Llywodraeth yn San Steffan wedi dod â gobeithion newydd, ac o bosib elfennau ansicr newydd, i sector sydd wedi wynebu pwysau ariannol cynyddol mewn blynyddoedd diweddar, sydd wedi eu gwaethygu gan lefelau chwyddiant uchel, negeseuon cymysg i'r cyhoedd a mesurau i gyfyngu ar fewnfudo mewn perthynas ag astudio.

Yn y deuddeg mis diwethaf hefyd cafwyd craffu manwl ar ddulliau'r sector o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol ac etholfreinio darpariaeth.

Rydym wedi gweld datblygu cyfyngedig mewn strategaethau i hybu dysgu gydol oes - ond cyfleoedd cyffrous hefyd i dyfu prentisiaethau gradd yn y dyfodol a hybu ehangiad mynediad i addysg uwch (a hwyluso llwyddiant ynddi), yn ogystal â chamau cadarn, yn arbennig yng Nghymru a'r Alban, i greu cydweithrediad agosach rhwng y sectorau addysg uwch ac addysg bellach.

Yn y cyfamser, mae effeithiau parhaus deallusrwydd artiffisial mewn addysg a chyflogaeth wedi parhau i gyrraedd y penawdau a hybu cymysgedd amrywiol o optimistiaeth a phryder ymysg myfyrwyr, sefydliadau addysg, llunwyr polisi a'r gymdeithas ehangach.

Mae QAA wedi chwarae rolau allweddol ymhob un o'r meysydd hyn, ac yn fwy na dim mae'n parhau'n hanfodol i enw da addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd.

Eleni byddwn yn tynnu sylw at ddau ddatblygiad yn arbennig.

Yn gyntaf, mae'r Fframwaith Gwella Ansawdd Addysg Drydyddol gan Gyngor Cyllido'r Alban. Mae hwn yn rhaglen hynod gydweithredol a luniwyd yn ofalus, y mae QAA yn falch iawn o arwain ffrydiau gwaith oddi tani sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd a gwella ansawdd ledled addysg uwch ac addysg bellach. Bydd yn caniatáu i QAA ddefnyddio ei harbenigedd ar draws y tirlun addysg drydyddol cyfan, a thrwy hynny ei ddatblygu ymhellach; bydd yr Asiantaeth yn chwilio am synergedd lle bynnag y gall, i alluogi i ddarparwyr ddysgu o sail dystiolaeth ehangach, a bydd yn adeiladu ar yr ysbryd o bartneriaeth sy'n elfen amlwg yn y dull a ddefnyddir yn yr Alban - heb gyfaddawdu'r hyn sy'n wahanol am y ddau sector mewn unrhyw ffordd.

Yn ail, y bid llwyddiannus am gontract mawr gan gorff rheoleiddio sector. Mae QAA wedi cael ei chomisiynu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gyflenwi sicrwydd ansawdd allanol ar gyfer pob hyfforddiant ac addysg a ddarperir i nyrsys a bydwragedd ledled y DU, o flwyddyn academaidd 2024-25 ymlaen. Mae hyn wrth gwrs yn arwydd cryf o'r hyder sydd ganddo yn arbenigedd yr Asiantaeth ac yng ngwerth y sicrwydd ansawdd annibynnol; credaf ei fod hefyd yn dangos cymaint y mae QAA wedi addasu'n llwyddiannus mewn ymateb i amgylchedd polisi a marchnad sy'n newid.

Mae'n anochel y bydd y tirlun hwnnw'n parhau i esblygu, ond rwy'n hyderus bod QAA yn parhau i fod mewn sefyllfa dda i deilwra ei gwaith i gefnogi'r sector a'r myfyrwyr yn y ffordd fwyaf effeithiol, a lle bo'n briodol, i ddarparu arweiniad a mewnwelediad - ac edrychaf ymlaen at ei weld yn parhau i flodeuo.

## Rhagair gan Vicki Stott, Prif Weithredwr QAA

Mae QAA wedi cael blwyddyn lawn a llwyddiannus o ran mynd i'r afael â'r amrywiaeth o heriau y mae Simon wedi eu hamlinellu.

Ym mis Chwefror, comisiynwyd QAA gan Brifysgolion y DU i wneud gwerthusiad trwyadl o raglenni llwybrau rhyngwladol. Cyhoeddwyd ein hadroddiad a'i argymhellion ym mis Gorffennaf a chawsant groeso gan amrywiaeth o gyrff y sector, gan dderbyn sylw yn y cyfryngau sy'n ymwneud yn benodol â'r sector a'r cyfryngau prif ffrwd.

Rydym wedi cyhoeddi argraffiad arbennig o 'Quality Compass' am etholfreinio ac rydym wedi cydlynu â chyrff allweddol eraill yn y sector i hyrwyddo'r amrywiaeth o adnoddau y mae'r sector ei hun wedi eu cyhoeddi am y pwnc yn ystod y misoedd diwethaf.

Mewn perthynas ag addysg drawswladol, rydym wedi parhau i ddatblygu a thyfu ein cynllun ar gyfer Gwerthuso a Gwella Ansawdd Darpariaeth Addysg Uwch Drawswladol y DU (Cynllun GA-AD), a gomisiynwyd gan Brifysgolion y DU a GuildHE - menter y mae ei sail gyfranogwyr wedi ehangu i gynnwys pob darparwr perthnasol yn yr Alban ac a gyhoeddodd ei hadroddiad interim yn yr haf eleni.

Ym mis Tachwedd, aethom ati i gyhoeddi papur polisi am yr Hawl Dysgu Gydol Oes ac yn 2024 rydym wedi dilyn hyn gyda dau gyhoeddiad sy'n mynd i'r afael ag un o'r rhwystrau hanfodol i'r fenter hon - y cwestiwn dadleuol o gysondeb ymysg dulliau trosglwyddo credyd - gan gyflwyno adolygiad o arferion cyfredol yn y sector ac arweiniad i arferion effeithiol.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi papur polisi am brentisiaethau gradd, ochr yn ochr â phecyn cymorth o adnoddau i ddarparwyr, ac adroddiad am gyflwr presennol prentisiaethau gradd yn Lloegr, sef allbwn Prosiect Gwella Cydweithredol a ariannwyd gan QAA ac a wnaethpwyd dan arweiniad cydweithwyr ym Mhrifysgol Swydd Stafford.

Yn yr haf eleni, buom yn dathlu cofrestru'r miliynfed myfyriwr ar y ddarpariaeth Diploma Mynediad i Addysg Uwch ers i QAA ddechrau rheoli'r cynllun yn 1997. Hefyd, cyhoeddwyd adnodd pwysig gennym am strategaethau i gau bylchau dyfarnu - tra bod QAA Scotland wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau hynod lwyddiannus yn archwilio sut y gallai darparwyr gynnal ansawdd profiad y dysgwyr drwy'r argyfwng costau byw.

Eleni, rydym wedi gweithio'n agos â llywodraethau, cyrff y sector a darparwyr i gefnogi prosesau ar gyfer integreiddio'r sectorau addysg drydyddol yn well, a gwelwyd y gweithredoedd mwyaf cyfunedig yn yr Alban, fel y disgrifiodd Simon.

Ac, ym maes deallusrwydd artiffisial, ochr yn ochr â'n gwaith parhaus ar uniondeb academaidd, rydym wedi parhau i gefnogi a hysbysu datblygiad dulliau'r darparwyr, strategaethau'r sector a pholisïau cenedlaethol drwy gyhoeddi argraffiad arbennig o 'Quality Compass' a lansiad adnodd mawr wedi'i guradu sy'n dod ag amrediad eang o gynhyrchion at ei gilydd sy'n disgrifio ymatebion y sector i'r effeithiau cynyddol y mae deallusrwydd artiffisial yn eu cael ar addysg uwch.

Yn fyr, mae QAA wedi parhau'n flaenllaw ac yn ganolog yn y dadleuon allweddol hyn. Ac mae'n hynny'n rhywbeth sydd wedi caniatáu i'r Asiantaeth ychwanegu gwerth go iawn ar draws y sector - a helpu i wella cyfraniad y sector ymhob un o bedair gwlad y DU.

Roedd hi'n flwyddyn bwysig i'n gwaith safonau ledled y DU, ar ran y sector. Yn ychwanegol at gyhoeddiad yr argraffiad wedi ei ddiweddaru o'r Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch ym mis Chwefror - ac argraffiadau newydd o 13 Datganiad Meincnod Pwnc ym mis Ebrill - yn yr haf eleni, aethom ati i gyhoeddi'r argraffiad cyntaf sy'n hollol newydd ers 2018 o God Ansawdd Addysg Uwch y DU.

Roedd y cyhoeddiad tirnod hwn yn dangos, unwaith eto, allu sector cyfan y DU - y myfyrwyr, y cydweithwyr a'r darparwyr bach a mawr - i ddod at ei gilydd i ddatblygu, perchnogi, hyrwyddo a dathlu ei egwyddorion allweddol a rhannu ei arferion gorau. Mae'r ymatebion cadarnhaol a

brwdfrydig i'r Cod Ansawdd newydd, ac i fentrau eraill o'r fath yr ydym ni yn QAA wedi eu cefnogi, eu hyrwyddo a'u curadu, yn dangos bod dealltwriaeth ymysg y darparwyr, cyrff y sector a'r wasg yn y sector hon, o werth safonau sy'n ymwneud yn benodol â'r sector.

O'n Prosiectau Gwella Cydweithredol yng Nghymru a Lloegr - ochr yn ochr ag 20 mlynedd o Themâu Gwelliant yn yr Alban - hyd ein gwaith rhyngwladol sy'n cynyddu (gan gynnwys cydweithrediadau sy'n datblygu â'r British Council ac Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU, er enghraifft), mae'n destun ysbrydoliaeth enfawr bob amser i weld yr effaith y gall ein gwaith ei gael drwy'r byd i gyd.

Ym mis Gorffennaf, cefais yr anrhydedd o gael fy ethol yn llywydd y Rhwydwaith Rhyngwladol o Asiantaethau Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (INQAAHE). Yn ystod y flwyddyn hon, rydym ni yn QAA wedi llofnodi memoranda cyd-ddealltwriaeth â'n hasiantaethau partner mewn gwahanol wledydd - o Montenegro, Rwmania, Slofacia a Cyprus i Tunisia, Uzbekistan, Indonesia, Chile a Fietnam. Ym mis Mai, buom yn croesawu cynrychiolwyr o asiantaethau sicrhau ansawdd yn y Balcanau Gorllewinol mewn digwyddiad yn yr Alban. Mae ein cynadleddau'n denu cynrychiolwyr a siaradwyr o bob rhan o'r byd.

Yn Lloegr, rydym wedi parhau i weithio'n agos â darparwyr, cyrff y sector a llunwyr polisi i ddatblygu a hybu'r strategaethau a'r arferion effeithiol er mwyn ateb yr heriau, y disgwyliadau a'r cyfleoedd sydd yn yr amgylchedd addysg uwch heddiw.

Ac, fel y dywedodd Simon, ym mis Mai eleni yn dilyn proses dendro gystadleuol gyhoeddus, dyfarnwyd y contract am gyflenwi sicrwydd ansawdd ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth i QAA gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Ddechrau mis Medi, aethom ati i gychwyn y gwaith hwn.

Rwy'n falch iawn o bawb yn QAA sy'n parhau, drwy'r gwaith hwn i gyd, i wasanaethu a chefnogi ein cyd-werthoedd craidd, a'n hymdrechion i gynyddu cyfleoedd addysg, er mwyn hybu budd y cyhoedd a gwella rhagolygon gyrfaol a bywydau pobl.

# Yr Adroddiad Strategol

Mae QAA yn gweithio ar draws y DU gyfan. Am fod gan bob gwlad o'r DU system sicrhau ansawdd sy'n benodol ac yn hollol ar wahân, mae QAA yn gweithio gyda chyrff rheoleiddio a chyllido, sefydliadau addysg uwch, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill i ddarparu dulliau sydd wedi eu teilwra i bob cyd-destun.

## Pwrpas QAA

Mae QAA yn asiantaeth ansawdd sy'n arwain y byd gyda phrofiad digymar o ddarparu sicrwydd a gwelliant rheoleiddiol a chydweithredol diduedd ym maes ansawdd. Ein diben yw sicrhau bod myfyrwyr a dysgwyr yn cael profiad addysg o'r ansawdd uchaf posibl. Er mwyn cyflawni hynny, rydym yn cynorthwyo prifysgolion a cholegau i weithio gyda myfyrwyr a dysgwyr, llywodraethau a chyrff cyllido a rheoleiddio i ddarparu tystiolaeth a gwella ansawdd rhagorol a safonau uchel yr addysg a ddarperir ganddynt.

Rydym yn gweithio tuag at ddealltwriaeth well ar ran y cyhoedd - gartref ac yn rhyngwladol - o sut y dangosir ansawdd rhagorol mewn addysg uwch yn y DU, a sut mae darparwyr hunanreolus yn sicrhau darpariaeth yr ansawdd honno ac yn mynd i'r afael â gwendidau.

Mae ein gwaith yn diogelu gwerth cymwysterau i fyfyrwyr a dysgwyr, yn ogystal â diogelu a hyrwyddo enw da addysg uwch. Mae'n rhannu'n bedwar categori: safonau, sicrwydd a gwelliant, gweithgareddau rhyngwladol, ac arweinyddiaeth.

# Yr hyn a wnawn

## Safonau

### Pwyntiau cyfeirio'r sector

Mae safonau'n un o gonglfeini gwaith QAA. Mae QAA yn datblygu ac yn cynnal cyfres o bwyntiau cyfeirio i'r sector ledled y DU sy'n gweithredu fel safonau ansawdd drwy'r addysg drydyddol i gyd. Lansiwyd fersiwn wedi ei ddiweddaru o God Ansawdd Addysg Uwch y DU eleni, sef un o'r pwyntiau cyfeirio craidd sydd wedi cael ei ddefnyddio ar draws sector addysg drydyddol y DU ers blynyddoedd lawer. Buom yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y sector, gan gynnwys darparwyr, grwpiau cenhadaeth a chyrff cyllido a rheoleiddio, i ailddatblygu'r Cod, a bu mwy na 300 o staff a myfyrwyr yn cymryd rhan drwy gydol y broses. Cyn hir bydd y Cod newydd wedi ei ymwreiddio yn y dulliau adolygu sydd ar waith yng ngwledydd y DU. Hefyd, aethom ati i gyhoeddi 16 o Ddatganiadau Meincnodi Pwnc wedi'u diweddaru er mwyn cefnogi cymunedau academaidd yn eu gwaith o lunio ac adolygu cyrsiau. Datganiadau Meincnodi Pwnc yw pwyntiau cyfeirio'r sector ei hun sy'n cael eu datblygu gan academyddion a'u cydlynu gan QAA. Galwyd grwpiau cynghori at ei gilydd i adolygu wyth Datganiad arall a fydd yn cael eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2025.

### Gwerthuso safonau rhaglenni 'llwybrau rhyngwladol'

Cawsom ein comisiynu eleni gan Brifysgolion y DU i wneud darn penodol o waith yn dilyn sylw a gafwyd yn y cyfryngau i raglenni llwybrau rhyngwladol. Bu'r gwerthusiad yn dadansoddi mwy na 6,000 o ddarnau o dystiolaeth a defnyddiwyd 36 o'n hadolygwyr arbenigol sy'n gymheiriaid i lunio'r beirniadaethau.

Gwnaed nifer o argymhellion gennym ac mae'r sector wedi croesawu'r argymhellion hyn. Yn ogystal, byddwn yn ystyried deilliannau'r adroddiad hwn yn ein gwaith ninnau yn y dyfodol, mewn perthynas â gwella ansawdd a datblygu pwyntiau cyfeirio'r sector.

## Sicrwydd a gwelliant

### Gwelliant yn Lloegr

Roedd ymgysylltiad aelodau QAA â'n rhaglen aelodaeth yn gryf drwy gydol blwyddyn academaidd 2023-24. Mae'r rhaglen wedi ymdrin â phynciau megis deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, dulliau darparu hyblyg, arloesi mewn prosesau sicrhau a gwella ansawdd, buddiannau addysg, gwerthuso effeithiol ac ymgysylltu â'r myfyrwyr.

Darparwyd cymorth ariannol gennym i 18 o Brosiectau Gwella Cydweithredol newydd sydd wedi eu harwain gan aelodau QAA i gyd-greu gwaith ymchwil a chynhyrchion ymarferol yn ymwneud ag amrywiaeth o bynciau sydd â blaenoriaeth, er enghraifft deallusrwydd artiffisial (DA) cynhyrchiol, llais y myfyrwyr, dulliau asesu, dyfodol byrddau arholi, prentisiaethau, ac agweddau o degwch a chynhwysiant.

Cynhaliwyd saith cynhadledd fawr gennym oedd yn cynnwys ein cynhadledd 'Quality Insights' 2024, ein Gŵyl Asesu a digwyddiad wyneb yn wyneb ein Rhwydwaith Aelodau.

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd mwy na 150 o adnoddau newydd i'n haelodau, gan gynnwys pum pecyn cymorth ymarferol:

- Gwneud iaith asesiad yn gynhwysol
- Gweithredu dulliau dysgu ar sail ffenomenau
- Datblygu cyfleoedd i gael profiad gwaith mewn menter gymdeithasol
- Fframwaith ar gyfer addysg uwch gynhwysol
- Cynnal ffeiriau gyrfaoedd rhithwir

Roedd ein cyhoeddiadau mawr eleni'n cynnwys y canlynol:

- Y 'Mapiau Dyfarniadau' sy'n rhoi golwg gyfannol ar y ffactorau sy'n achosi bylchau dyfarnu rhwng myfyrwyr sydd â gwahanol nodweddion.
- 'Beyond the baseline' - sef adnodd sydd â'r nod o gefnogi ein haelodau i weld sut y gellir defnyddio pwyntiau cyfeirio allweddol y sector ynghyd ag Adnoddau i Aelodau i ddangos eu bod yn cwrdd â'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, neu'n rhagori arnynt.
- Adnoddau DA cynhyrchiol: mae ein cyfres o we-dudalennau sy'n ymwneud â deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn galluogi i'n haelodau ddeall y cyfleoedd a'r heriau a ddaw gyda'r offer hyn, gan hefyd gynnal y safonau academaidd.

### Symud tuag at sector addysg drydyddol gydlynol yn y gwledydd datganoledig

Yn ystod y flwyddyn hon, cafwyd datblygiadau a newidiadau sylweddol ymhob rhan o waith QAA yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n cynrychioli cynnydd sylweddol yn ein blaenoriaeth strategol i ddatblygu cymorth i sefydliadau ar draws y sector addysg drydyddol.

Yn yr Alban, mae QAA wedi arwain rhaglen o waith ar draws y sector addysg drydyddol i gyd-greu dull newydd o adolygu'n allanol, a dull newydd o sicrhau gwelliant ar lefel genedlaethol.

Comisiynodd Cyngor Cyllido'r Alban yr Adolygiad Gwella Ansawdd Addysg Drydyddol [Tertiary Quality Enhancement Review (TQER)] sy'n cefnogi'r weledigaeth i ddatblygu'r Fframwaith Gwella Ansawdd Addysg Drydyddol [Tertiary Quality Enhancement Framework (TQEF)] newydd er mwyn cael dull mwy cydlynol o sicrhau, datblygu a gwella ansawdd ar draws y sector addysg drydyddol, a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd ac yn cyflawni'r uchelgais o gael system addysg drydyddol sy'n fwy integredig a theithiau di-dor i'r dysgwyr. Mae'r broses Adolygiad TQER yn cael ei harwain gan gymheiriaid ac yn canolbwyntio ar sicrhau gwelliant. Mae'n cynnwys yr hyblygrwydd i gefnogi gwahanol gyd-destunau sefydliadol, dulliau darparu a lefelau dysgu.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, datblygwyd cynnig i Gyngor Cyllido'r Alban am Raglen Wella Addysg Drydyddol yr Alban [Scotland's Tertiary Enhancement Programme (STEP)]. Mae'r cynnig yn amlinellu rhaglen sy'n cefnogi'r sector addysg drydyddol yn yr Alban i gyflwyno newyddbethau mewn gwella ansawdd. Mae wedi ei llunio i alluogi i golegau a phrifysgolion yn yr Alban gydweithio er mwyn gwella a chodi safonau dysgu, addysgu, profiad y myfyrwyr a datblygiad y staff ar draws y ddarpariaeth addysg drydyddol. Bydd yn galluogi i flaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau'r sector gael eu halinio ac i raglen o waith gael ei datblygu i ymdrin â heriau ar y cyd yn hytrach nag yn unigol. Wrth ei chraidd, bydd y rhaglen STEP yn darparu gofodau cydweithredol lle gellir rhannu syniadau, a datblygu diwylliant o fyfyrio ar ansawdd addysg drydyddol, sy'n creu newid cadarnhaol i ddysgwyr, staff, a rhanddeiliaid eraill yn y sector.

Yng Nghymru, mae QAA wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), yn ogystal â Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil sydd newydd ei sefydlu, i ddatblygu fframwaith ansawdd i'r sector addysg ôl-16 yng Nghymru. Gan alinio ag amcanion strategol cynnar i Medr, nod y Fframwaith yw lleihau dyblygiad a gostwng y baich ar sefydliadau, gan sicrhau hefyd bod y dysgwyr yn cael profiad sydd o safon gyson uchel. Eleni hefyd, gweithredodd QAA flwyddyn gyntaf y cylch adolygu allanol newydd ar gyfer darparwyr addysg uwch yng Nghymru, sef yr Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA). Mae'r flwyddyn gyntaf hon o gylch chwe blynedd wedi canolbwyntio ar gynorthwyo paratoadau'r darparwyr ar gyfer yr adolygiad.

Yng Ngogledd Iwerddon, roedd hi'n bleser gan QAA dderbyn cadarnhad ei bod wedi ei chomisiynu gan Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon i ddatblygu cyfres o gynigion am y dull nesaf o adolygu addysg uwch i roi sicrwydd ansawdd allanol i bob sefydliad addysg drydyddol. Mae'r cynigion yn cynnwys llunio dull adolygu, cynllun i baratoi'r sector a chynllun gweithredu. Mae QAA yn gweithio gydag Adran yr Economi i lunio dull sy'n gweithio'n ymarferol yng nghyd-destun y sector yng Ngogledd Iwerddon ac mae'n gwerthfawrogi dull o sicrhau gwelliant ar lefel y sector er mwyn cefnogi arferion, arloesi a hyrwyddo effaith addysg uwch yng Ngogledd Iwerddon.

### Gwaith QAA yn yr Alban

Cwblhaodd QAA 12 o Adolygiadau Gwella Ansawdd a Safonau a chynhaliodd 7 cyfarfod cyswllt sefydliadol ym mlwyddyn academaidd 2023-24, yn rhan o'r cam cyntaf o ddull dau gam o adolygu ansawdd addysg uwch yn allanol mewn sefydliadau addysg uwch yn yr Alban. Mae'r gwaith o lunio a chyflenwi dull digidol a chyfunol sy'n effeithiol ac yn gynhwysol yn parhau i fod yn faes o ddiddordeb dwys i'r staff a'r myfyrwyr. 2023-24 oedd yr ail flwyddyn o gydweithio ar draws asiantaethau partner ym maes sicrhau ansawdd a Chyngor Cyllido'r Alban i gefnogi gwelliant a chodi safon yr arferion yn y sector addysg drydyddol yn yr Alban o amgylch darpariaeth y cwricwlwm, gyda'r nod o sicrhau canlyniadau gwell i ddysgwyr. Cynhaliodd QAA, ar y cyd â Rhwydwaith Datblygu'r Colegau [College Development Network (CDN)], gyfres o weithdai i sefydliadau a thimau cwricwlwm oedd yn canolbwyntio ar rannu arferion o amgylch dulliau cyfunol effeithiol o ddysgu gyda chymorth technoleg ddigidol ar gyfer colegau a phrifysgolion yn yr Alban ar draws holl lefelau Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF).

Cynhaliodd QAA gynhadledd undydd i'r sector addysg drydyddol cyfan gan archwilio'r darlun cyfredol o asesiad mewn byd sy'n llawn o DA ledled yr Alban a thu hwnt. Roedd y digwyddiad wedi ei fframio gan lais y dysgwr, ac yn galluogi i staff werthuso a yw DA yn addas ar gyfer tasgau academaidd, rheoli tuedd a gwahaniaethu wrth ddefnyddio DA cynhyrchiol mewn lleoliadau addysgol ac archwilio beth mae myfyrwyr yn ei ddisgwyl, ei eisiau a'i angen gan DA cynhyrchiol i gefnogi eu hastudiaethau ar gyfer eu hasesiad.

Mewn ymateb i effaith barhaus yr argyfwng costau byw presennol ar y dysgwyr sy'n astudio mewn colegau yn yr Alban, rhoddodd QAA yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a Phwyllgor Gwella Addysg Uwch yr Alban brosiect ar waith i ddarparu cyfres o sesiynau i addysgwyr a myfyrwyr oedd yn rhoi cyfle iddynt ymgysylltu ag ystod o waith ymchwil ac arbenigedd cyfredol, er mwyn trafod newidiadau ac addasiadau i gefnogi'r myfyrwyr yn ystod yr her bresennol.

## Gwaith QAA yng Nghymru

Cwblhaodd QAA ddau Adolygiad Ansawdd Porth eleni, yng Ngholeg Gwent ac Athrofa Padarn Sant. I gefnogi gweithrediad blwyddyn gyntaf cylch adolygu'r dull Adolygiad Gwella Ansawdd newydd yng Nghymru gwnaeth QAA amrywiaeth o weithgareddau, yn cynnwys cynnal cyfres o weithdai paratoadol ar gyfer y sector. Hefyd aethom ati i adolygu'r Canllaw i Fyfyrwyr am Adolygiadau QAA yng Nghymru, er mwyn cefnogi myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn ymweliadau adolygu. Yn y gronfa wybodaeth y mae QAA yn ei chyhoeddi am ddeilliannau'r gwaith adolygu a wnaethpwyd yng Nghymru ers 2017, mae gwybodaeth arwyddocaol ar gael am y beirniadaethau a'r categorïau o arferion da ac argymhellion, yn cynnwys testun yr adroddiadau, ac mae modd eu hidlo fesul thema. Mae hyn yn hybu eglurder deilliannau adolygiadau QAA ac ymgysylltiad pobl â nhw.

Mae rhwydweithiau QAA yn parhau i hyrwyddo ac ymwreiddio arferion effeithiol o fynd i'r afael â'r prif heriau ar draws y sectorau addysg uwch ac addysg drydyddol, gan gynnwys mewn perthynas ag uniondeb academaidd a DA cynhyrchiol, micro-gymwysterau (ar draws Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) a phrentisiaethau gradd. Mae'r rhwydweithiau hyn wedi eu cefnogi drwy gymorth ariannol grant gan CCAUC. Mae cymorth ariannol grant CCAUC hefyd wedi cefnogi dau brosiect ar gyfer y sector cyfan. Yn rhan o'r prosiect cyntaf, defnyddiwyd astudiaethau achos i edrych ar yr effaith a gafodd datblygiad proffesiynol staff ar ddeilliannau dysgu'r myfyrwyr. Mae hwn yn adnodd cynhwysfawr o fentrau dysgu ac addysgu arloesol sydd ar waith ar draws addysg bellach ac uwch. Canolbwyntiodd yr ail brosiect ar ganfyddiadau myfyrwyr o welliant, er mwyn deall sut mae myfyrwyr yn amgyffred gwelliant. Mae'r adroddiad yn rhoi tystiolaeth o ystod eang a hygyrch o fecanweithiau ar gyfer cipio llais y dysgwyr, a theimlad o gymuned a pherthyn ar lefel ysgol neu adran, sy'n ymestyn yn ehangach ar draws eu darparwr.

Mae QAA yn parhau i gryfhau ei hymrwymiad i'r Gymraeg drwy gynnal sesiynau hyfforddi i hybu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, defnyddio asesiadau o'r effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a datblygu mentrau newydd. Cyhoeddodd QAA ei hadroddiad blynyddol diweddaraf ym mis Ionawr 2024.

## Gwaith QAA yng Ngogledd Iwerddon

Mae QAA wedi cynnal rhaglen o ymgysylltu'n rheolaidd â phrifysgolion, colegau prifysgol a cholegau yng Ngogledd Iwerddon. Ym mis Tachwedd 2023, cynhaliodd QAA Gynhadledd Gogledd Iwerddon ar Welliant, ym Mhrifysgol Ulster.

## Rheoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch

Eleni gwelwyd newid sylweddol yn null QAA o reoli'r Cynllun Cydnabod ar gyfer y Diploma Mynediad i Addysg Uwch, wrth inni ddechrau'r daith o adnewyddu'r trefniadau rheoleiddio.

Ym misoedd cynnar y flwyddyn, canolbwyntiodd ein gwaith ar y newidiadau i'r Cynllun Graddio a Manyleb y Diploma y bydd yn rhaid i'r holl Ddiplomâu Mynediad i AU eu dilyn o fis Awst 2024 ymlaen. Hefyd, gorffennwyd llunio Disgrifydd Pwnc ar gyfer Diplomâu Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd i'w dreialu o fis Awst 2024 ymlaen. Gobeithiwn y bydd hwn yn dod â gwell cysondeb i ddiplomâu a gynigir mewn maes astudio sy'n hynod boblogaidd ac yn strategol bwysig.

Rydym wedi gwneud ymarfer recriwtio sylweddol ar gyfer ein Pwyllgor Cydnabod a Thrwyddedu Mynediad i AU, a gafodd enw newydd gennym eleni, sef y Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU. Croesawyd aelodau newydd gennym i archwilio a herio QAA wrth i ni symud ymlaen â'n trefniadau newydd.

Rydym hefyd wedi cychwyn y broses o wneud adfywiad mawr i'r trefniadau rheoleiddio, a lansiwyd ymgynghoriad ym mis Mai 2024. Yn y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar ddadansoddi canlyniadau'r ymgynghoriad hwn, ac ar weithredu newidiadau i'n trefniadau rheoleiddio.

### Gwasanaethau asesu

Lansiwyd dau weithgaredd arall gennym eleni yn rhan o'n Gwasanaethau Asesu i gyd-fynd â'r ddau arall a lansiwyd yn agos at ddiwedd y flwyddyn flaenorol. Roedd y galw am ein gwasanaeth Pwerau Dyfarnu Graddau'n arbennig o gryf - mae nifer o ddarparwyr oedd ar wahanol gamau o'u taith ddatblygu wedi gofyn am gael defnyddio gwahanol elfennau o'r gwasanaeth. Rydym wedi derbyn adborth oedd yn gadarnhaol i gyd am y gwasanaeth yn gyffredinol, yn cynnwys geirdaon perthnasol gan rai o'n cleientiaid.

Perfformiodd ein gwasanaethau eraill yn arafach, a byddwn yn canolbwyntio ar adeiladu'r rhain drwy gydol y flwyddyn nesaf. Un her arbennig oedd sicrhau bod darparwyr addysg uwch yn deall yr amrediad eang o wasanaethau y mae QAA yn eu cynnig erbyn hyn, sy'n wahanol iawn i'r gweithgaredd adolygu graddfa fawr y mae QAA yn arbennig o adnabyddus amdano, a bydd ffocws y flwyddyn nesaf ar ddatblygu hyn ymhellach.

### Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Ym mis Mai 2024, dyfarnwyd contract i ni am o leiaf dair blynedd gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i fod yn Bartner Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd iddynt, gan ddechrau ar 1 Medi 2024. Mae'n bleser mawr gennym wneud y gwaith hwn mewn partneriaeth â'r NMC, ac rydym wedi bod yn gweithredu proses gyflym o ddatblygu'r dull adolygu, yn ogystal â rhoi elfennau seilwaith angenrheidiol eraill ar waith er mwyn cychwyn gweithredu ar unwaith pan fydd y contract yn dechrau ym mis Medi.

## Gweithgareddau rhyngwladol

### Cynllun Gwerthuso a Gwella Ansawdd Darpariaeth Addysg Uwch Drawswladol y DU

Yn 2023-24, buom yn chwarae rôl allweddol mewn diogelu enw da addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd drwy ein cynnig i ddarparwyr y DU. Mae'r Cynllun Gwerthuso a Gwella Ansawdd Addysg Drawswladol (Cynllun GA-AD) a gomisiynwyd gan Brifysgolion y DU a GuildHE, yn ogystal â'r pecynnau 'International Insights', wedi gwasanaethu cyfanswm o 117 o sefydliadau addysg uwch yn y DU, gan werthuso, gwella a chefnogi eu strategaethau rhyngwladoli.

Cwblhaodd y Cynllun GA-AD y drydedd flwyddyn mewn cylch o bum mlynedd gyda chyhoeddi adroddiad interim oedd yn tynnu sylw at gyflawniadau ac yn edrych ymlaen at y dyfodol. Gwnaethpwyd gwaith yn ymwneud yn benodol â Tsieina, Cyprus, Gwlad Groeg a Fietnam oedd yn cynnwys ymweliadau ag wyth sefydliad addysg drawswladol, deuddeg astudiaeth achos, tri adroddiad 'Thematic Insights' a thair canllaw yn rhan o'n cyfresi 'Country Resources' a 'Territory Resources'.

Yn dilyn cyhoeddi canllawiau Cyngor Cyllido'r Alban oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob corff dyfarnu graddau yn yr Alban sy'n ymwneud ag addysg drawswladol gymryd rhan yn y Cynllun GA-AD o flwyddyn academaidd 2024-25 ymlaen, penderfynon ni agor y cynllun i aelodau newydd yn Lloegr, a chynhaliwyd digwyddiad lansio ffurfiol yn Glasgow ym mis Medi.

### 'International Insights'

Darparodd y pecyn aelodaeth 'International Insights (II)' gynnwys i 79 o brifysgolion yn Lloegr sy'n aelodau, a chyfanswm o 107 yn cynnwys Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd y gwasanaethau'n cynnwys tri digwyddiad gan ein Rhwydwaith o Ddirprwy Is-Gangellorion Addysg Ryngwladol, a thri arall gan ein Rhwydwaith Polisi ac Arferion i bartneriaethau rhyngwladol, hyfforddiant mewn rheoli risgiau, partneriaethau rhyngwladol, yn ogystal ag adnoddau am brofiadau myfyrwyr rhyngwladol a gwybodaeth am Hong Kong, Ynysoedd Philippines, Uzbekistan, Bangladesh, a Kazakhstan.

Trwy gadw cysylltiad agos â'r rhanddeiliaid yn y DU a thramor, yn cynnwys cyrff cynrychioli'r sector, British Council, Llywodraeth y DU a chyrff partner ym maes sicrhau ansawdd, rydym yn cynnig y mewnwelediadau, gwybodaeth a chefnogaeth diweddaraf mwyaf perthnasol, i'n haelodau.

### Achredu ac ymgynghori a gweithgareddau eraill i aelodau rhyngwladol

Er gwaethaf yr amgylchedd cystadleuol, lle'r oedd nifer o asiantaethau achredu rhyngwladol wedi gwthio eu prisiau i lawr yn llym, cynyddodd y gwasanaethau achredu ac ymgynghori a'r aelodaeth ryngwladol gyfanswm eu cyfraniadau at sail incwm QAA o 36% yn 2023-24, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae sefydliadau yn Kazakhstan, yr Emiradau Arabaidd Unedig, Malaysia, Bahrain, yr Aifft a Kuwait, yn ogystal â Phrifysgol Agored Arabaidd y rhanbarth Arabaidd cyfan, wedi mynd drwy'r broses Adolygiad Ansawdd Rhyngwladol (Adolygiad ARh, neu IQR yn y Saesneg) i gael eu hachredu. Galluogodd yr arian gan Fanc y Byd ar gyfer y prosiect 'IQR for ACE Impact' i 17 o ddarparwyr ychwanegol yn Nigeria, Ghana a'r Traeth Ifori symud ymlaen i wahanol gamau'r broses o adolygu sefydliadau. Bydd cyhoeddiad gan Fanc y Byd am estyniad y cyllido hyd fis Mehefin 2025 yn caniatáu i fwy o sefydliadau symud ymlaen i gamau lefel uwch, yn cynnwys achrediad yn y pendraw. Roedd cyfanswm yr incwm cyfunol a ddeilliodd o'r Adolygiadau ARh a'r Adolygiadau ARh 'ACE for Impact' yn uwch na £875,000 (o'i gymharu â £630,000 yn y flwyddyn flaenorol), ac roedd hyn yn cynrychioli 45% o'r refeniw o'n gweithgareddau rhyngwladol yn 2023-24. Yn rhan o'n gwasanaeth Achrediad Rhyngwladol i Raglenni (Achrediad RhR, neu IPA yn y Saesneg), adolygwyd sefydliadau yn Nigeria, Bahrain, Kuwait, a Phrifysgol Agored Arabaidd y rhanbarth Arabaidd cyfan.

Cyflawnwyd cyfanswm o 13 contract gwaith pwrpasol i nifer fawr o sefydliadau, gan gynnwys Swyddfa Datblygu Addysg a Phobl Ifanc [Education and Youth Development Bureau (DSEDJ)] Llywodraeth Macao, Pwyllgor Dyfarnu Grantiau i Brifysgolion [University Grants Committee] Hong Kong, Awdurdod Parth Economaidd Ras Al Khaimah, y British Council yn Fietnam ac Uzbekistan, Prifysgol Nottingham Trent, Cyngor yr Ysgolion Rhyngwladol Prydeinig, y Bwrdd Archwilio Patentau, Llysgenhadaeth Prydain yn Jakarta, Prifysgol Wladol y Gyfraith Tashkent, yn ogystal â Phwyllgor Gwladol Qatar ar gyfer Cymwysterau ac Achrediad Academaidd [National Committee for Qualifications and Academic Accreditation].

Ymunodd cyfanswm o 28 sefydliad newydd â chynlluniau Aelodaeth Ryngwladol ac Aelodaeth Ryngwladol Gyswllt QAA (7 ohonynt fel aelodau llawn, a'r 21 eraill fel aelodau cyswllt). Rydym yn rhagweld y bydd ein haelodaeth ryngwladol yn cynyddu wrth i'n gwasanaeth ddatblygu, ac wrth i nifer y sefydliadau gynyddu sy'n dod yn aelodau llawn QAA wedi iddyn nhw gael eu hachredu'n llwyddiannus.

## Arweinyddiaeth

### Ymgysylltiad yn y DU

Mae gweithgarwch materion cyhoeddus QAA wedi cynyddu o ran estyniad ac effaith yn ystod y cyfnod adrodd. Rydym wedi datblygu strategaeth materion cyhoeddus newydd sy'n tynnu sylw at nodau i'n gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyfathrebu, dylanwadu ar bolisïau, a darparu arbenigedd erbyn 2027.

Un o weithredoedd mwyaf arwyddocaol y tîm oedd cyhoeddi cyfres QAA o bapurau polisi 'Quality in England' oedd yn nodi safiad polisi ar bynciau o gydymffurfio â safonau rhyngwladol ar gyfer sicrwydd ansawdd, a dysgu gydol oes, i brentisiaethau gradd a'r heriau ariannol yn y sector addysg uwch. Mae'r papurau hyn wedi cefnogi ymgysylltiad ehangach â materion cyhoeddus ar draws y sbectrwm gwleidyddol. Mae ein gweithgarwch materion cyhoeddus ymhob rhan o'r DU wedi parhau i gefnogi ein swyddogaethau statudol yng ngwledydd y DU, yn enwedig wrth i ni symud tuag at addysg drydyddol sy'n datblygu yn yr Alban, a throsglwyddo i gorff cyllido/rheoleiddio newydd yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r tîm materion cyhoeddus wedi dadansoddi data ansoddol yn fanwl am y cyflwyniadau i'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu er mwyn cefnogi'r sector i wella ansawdd. Erbyn hyn, mae gennym ddadansoddwr data yn y tîm i ddatblygu gwybodaeth i'w defnyddio ar draws yr asiantaeth.

Gyda Llywodraeth newydd yn San Steffan, byddwn yn gweithio i sicrhau bod QAA yn y lle gorau i gynnig ei chyngor a'i harbenigedd ynglŷn ag ansawdd a safonau lle bynnag y gallai fod yn ddefnyddiol.

### Ymgysylltiad rhyngwladol

Rydym wedi parhau â'n gwaith i osod QAA yn arweinydd agweddau ym maes sicrhau ansawdd drwy'r byd i gyd. Yn 2023-24, roeddem wedi llofnodi neu adnewyddu cytundebau partneriaeth â chyfanswm o 13 o gyrff sicrhau ansawdd yn Albania, Bwlgaria, Chile, Tsieina, Cyprus, Georgia, Indonesia, Montenegro, Rwmania, Slofacia, Tunisia, Uzbekistan a Fietnam. Gyda chyfanswm o 33 o femoranda cyd-ddealltwriaeth yn eu lle erbyn hyn, mae'r nifer yn uwch nag erioed.

Cynhaliwyd dau fforwm ar-lein gennym i'n partneriaid rhyngwladol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar addysg drawswladol a chymerodd cyfanswm o 27 asiantaeth ran ynddynt. Yn ystod Fforwm Addysg y Byd eleni, cawsom gyfarfodydd unigol â gweinidogion addysg o Armenia ac Uzbekistan, yn ogystal ag asiantaethau sicrhau ansawdd, cyfarwyddwyr y British Council ac arweinwyr sefydliadau o Tunisia, India, Malaysia, Mauritius a Phacistan.

Cyfrannwyd sesiynau gennym i gynhadledd y Cyngor Achredu Addysg Uwch, Fforwm Aelodau ENQA a Fforwm INQAAHE. Roedd ein cyfraniadau i ddigwyddiadau'r British Council yn cynnwys ei gynhadledd 'Going Global', 'Deep Dialogues' yn Llundain a Chaeredin, ac Wythnos Addysg Dwyrain Asia yn Kuala Lumpur. Roeddem yn rhan o daith fasnach i Bacistan dan arweiniad Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU, a darparwyd gweithdai sicrhau ansawdd gennym i swyddogion llywodraethau Uzbekistan, Kazakhstan, Bwlgaria, Cyprus a Gwlad Groeg. Buom hefyd yn rhan o Gyd-uwchgynhadledd Comisiwn Addysg Uwch Tunisia a'r DU, drwy wahoddiad Llysgenhadaeth y DU.

Buom yn cyfrannu at ymgysylltiad y British Expertise International â'r sector cyfan drwy aelodaeth o'u Gweithgor Addysg a gyda chyhoeddiad astudiaeth achos am ein gwaith yng Ngorllewin Affrica ar gyfer eu hadroddiad dan y teitl 'Cryfhau systemau: cyfraniad darparwyr addysg y DU at systemau addysg drwy'r byd i gyd' a lansiwyd yn ystod Fforwm Addysg y Byd.

Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Cynghori Rhyngwladol i roi gwybodaeth a chyngor strategol i ni am ein gweithgareddau rhyngwladol. Mae ei aelodau'n cynnwys arweinwyr ym maes sicrhau ansawdd o asiantaethau yn Nigeria, yr Aifft, yr Iseldiroedd, India, Indonesia a'r Emiraethau Arabaidd Unedig, ac o Brifysgolion y DU (Rhyngwladol), y British Council a Phrifysgol Ryngwladol Americanaidd Richmond yn Llundain.

## Edrych ymlaen

Mae'r newid a gafwyd yn Llywodraeth San Steffan tua diwedd blwyddyn academaidd 2023-24 yn cynyddu'r posibilrwydd o ddull gwahanol o ymwneud ag addysg drydyddol yn Lloegr, er nad ydym yn rhagweld y bydd yn cael goblygiadau ar unwaith ar waith QAA. Mae'r pwysau ariannol ar y sector yn debygol o barhau, a bydd QAA yn parhau i ganolbwyntio ar werth ein gwasanaethau i'r sector, yn cynnwys trwy aelodaeth, ac rydym yn cynllunio newidiadau i'n strwythur cyfundrefnol i gefnogi ein strategaeth. Bydd ein strwythur newydd yn cefnogi ehangiad parhaus ein gwaith rhyngwladol hefyd.

Yn yr Alban, bydd QAA yn parhau i weithio gyda phartneriaid wrth i ni arwain dwy ffrwd waith hanfodol yn rhan o'r Fframwaith Gwella Ansawdd Addysg Drydyddol, ac rydym yn edrych ymlaen at gwblhau'r Adolygiadau Gwella Ansawdd Addysg Drydyddol cyntaf a lansio Rhaglen Wella Addysg Drydyddol yr Alban.

Yng Nghymru, rydym yn rhagweld y bydd ein gwaith ym maes addysg uwch a gwaith Estyn ym maes addysg bellach yn alinio'n agosach â'i gilydd, wrth i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a elwir yn Medr erbyn hyn, ddatblygu ei gynllun strategol a'i ddull o ymwneud ag ansawdd. Yng Ngogledd Iwerddon, gobeithiwn y bydd ein dull adolygu newydd yn arwain at ddychwelyd i wneud gwaith sicrhau ansawdd.

# Yr adolygiad ariannol

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau. Dangosir yr adnoddau a wariwyd ar weithgareddau elusennol wedi eu rhannu rhwng amcanion ein strategaeth ar gyfer 2023-27. Mae'r nodyn am gyfanswm yr adnoddau a wariwyd (nodyn 7 ar dudalen 38) yn rhannu'r categorïau yma ymhellach ac yn cynnwys dyraniad o gostau cefnogi ar draws yr amcanion.

## Y canlyniadau

Cafodd gweithgareddau QAA yn 2023-24 eu hariannu'n bennaf drwy ffioedd aelodaeth gan ddarparwyr addysg uwch, drwy gontractau gyda'r cyrff cyllido addysg uwch, drwy ffioedd am waith adolygu dramor, a thrwy ffioedd am oruchwylio ac adolygu darparwyr amgen sy'n cynnig addysg uwch. Cynhyrchwyd incwm ychwanegol drwy incwm o fuddsoddiadau eraill.

Incwm net QAA ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024, cyn i'r enillion ar fuddsoddiadau gael eu cydnabod, oedd £2,932,727 (2023: £639,935). Ar ôl i'r enillion ar fuddsoddiadau o £372,466 (2023: colled o £82,183) gael eu cydnabod, y symudiad yn y cronfeydd net ar gyfer y flwyddyn oedd cynnydd o £3,305,193 (2023: £557,752) sydd wedi cynyddu'r cronfeydd wrth gefn. Y cronfeydd cronedig ar 31 Gorffennaf 2024 yw £6,395,779 (2023: £3,090,586).

Mae QAA Enterprises Limited, sef is-gwmni masnachol ym mherchnogaeth lwyr QAA, wedi gwneud colled o £1,448 (2023: colled o £440) i warged y grŵp. Derbyniodd yr elusen rodd cymorth o £1,128 (2023: £1,567) gan QAA Enterprises Limited yn ystod y flwyddyn.

## Yr incwm

Mae cyfanswm yr incwm, fel y gwelwch yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, wedi gostwng o £1,342,771 (13.3%) i £8,767,372 rhwng 2022-23 a 2023-24. Mae'r incwm o weithgareddau elusennol yn dangos gostyngiad o £1,393,242 (14.1%).

Gostyngodd yr incwm rhwng 2023 a 2024 o ganlyniad i'r penderfyniad a wnaethom yn ystod 2023 i ymadael â'n rôl fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig yn Lloegr, ac arweiniodd hyn at ostyngiad o £2.6 miliwn yn ein hincwm ar gyfer 2024. Cafodd y gostyngiad hwn ei wrthbwyso gan y pethau hyn: cynnydd yn yr incwm oedd yn deillio o weithgareddau rhyngwladol (£531,466), o ganlyniad i gynnydd yn y gwaith adolygu a wnaethom yn rhan o'n dulliau Adolygiad Ansawdd Rhyngwladol ac Achrediad Rhyngwladol i Raglenni; cynnydd yn yr incwm o ffioedd a delir gan aelodau yn y DU (£231,626), yn bennaf mewn ymateb i gynnydd yn y gyfradd chwyddiant; ac incwm o £218K oedd yn deillio o lansio cynhyrchion a gwasanaethau newydd yn y DU. Cafwyd incwm ychwanegol o £223,819 gan gynghorau cyllido ar gyfer y gwaith cychwynnol a wnaethom i ddatblygu dull adolygu newydd yn yr Alban, a'n gwaith adolygu ychwanegol yng Nghymru.

Mae'r incwm o fuddsoddiadau wedi cynyddu o £50,471 (22.0%) i £280,111.

Yr incwm o fuddsoddiadau yw'r llog o adneuon arian, ynghyd â difidendau a llog o fuddsoddiadau asedau sefydlog. Mae adenillion ar fuddsoddiadau'n cael eu trafod yn yr adran 'Rheoli'r trysorlys' isod.

## Y gwariant

Mae cyfanswm y gwariant elusennol, ar ôl ystyried y symudiad yn y ddarpariaeth pensiynau fel y gwelwch yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, wedi gostwng o £3,635,563 (38.4%) i £5,834,645 rhwng 2022-23 a 2023-24.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, cwblhawyd y prisiad actiwaraidd diweddaraf o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) (y dyddiad gweithredu oedd 31 Mawrth 2023). Mae'r cynllun wedi dychwelyd i sefyllfa warged o £7.4 biliwn, ac atgyfnerthwyd y sefyllfa hon gan y prisiad a amcangyfrifwyd ar gyfer 31 Mawrth 2024 (ar sail monitro prisiad 2023) o £9.3 biliwn, sef cyfradd gyllido o 114%. Yn ystod y flwyddyn felly, rhyddhawyd cyfanswm y ddarpariaeth o £2.7 miliwn i adfer diffygion mewn pensiynau.

Hefyd, mae'r cyfraniadau parhaus gan y cyflogwyr wedi gostwng o gyfradd o 21.6% o'r cyflogau i 14.5% o 1 Ionawr 2024 ymlaen.

Mae'r gwariant ar weithgareddau elusennol, cyn ystyried y symudiad yn y ddarpariaeth pensiynau, wedi gostwng o £1,615,659 (16%) i £8,502,406 (2023: £10,118,067). Cynyddodd y gwariant oedd yn gysylltiedig â'n gweithgareddau rhyngwladol o £61K, yn gyfatebol â'r cynnydd yn yr incwm yn y maes hwn, a gostyngodd y gwariant oedd yn gysylltiedig â Sicrwydd a Gwelliant o £1.34 miliwn yn gyfatebol â'r gostyngiad mewn incwm wedi i ni ymadael â'n rôl fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig yn Lloegr. Cafwyd arbedion yn dilyn y penderfyniad i ymadael â'r swyddfeydd yng Nghaerloyw a Glasgow a symud i weithio o bell.

Mae manylion y gwariant elusennol fesul yr amcan strategol i'w gweld yn nodyn 6 ar dudalen 37.

Mae dadansoddiad o'r gwariant elusennol sy'n gwahaniaethu rhwng costau uniongyrchol a chostau cefnogi i'w gael yn y nodyn cyfanswm y gwariant elusennol (nodyn 7, tudalen 39).

## Y fantolen

Cyfanswm y cronfeydd ar fantolen grŵp QAA yw £6,395,779 (2023: £3,090,586), a hynny'n bennaf o ganlyniad i ryddhau'r ddarpariaeth pensiynau o £2,680,761 o 2023 ymlaen, a hefyd o ganlyniad i ryddhau'r ddarpariaeth ariannol o £289,290 ar gyfer adfer adeiladau. Dyma'r newidiadau gweithredol eleni: mae gwerth net ar bapur yr asedau diriaethol ac anniriaethol sefydlog sy'n cael eu dal gan y grŵp a'r elusen yn dangos gostyngiad o £48,928. Mae gwerth net ar bapur y buddsoddiadau mewn asedau sefydlog wedi cynyddu o £571,426 i £6,587,757.

Mae'r swm o dan 'ddyledwyr' wedi gostwng o £907,756 i £1,203,101, ac mae'r swm o dan 'gredydwyr' wedi gostwng o £713,263.

## Y polisi cronfeydd wrth gefn

Mae polisi cronfeydd wrth gefn QAA yn sefydlu ystod darged o gronfeydd rhydd wrth gefn, sy'n cymryd i ystyriaeth: effaith ariannol risgiau; anwadalwch y ffrydiau incwm presennol a rhai'r dyfodol; y camau gweithredu sy'n ofynnol pan fydd incwm yn gostwng; ac effaith ymrwymiadau'r dyfodol. Yn dilyn yr adolygiad blynyddol, mae ystod darged y cronfeydd rhydd wrth gefn o ganlyniad i hynny wedi eu gosod rhwng £1.3 a £2.0 miliwn. Lefel y cronfeydd rhydd wrth gefn sydd ar gael yw £5.9 miliwn; mae hyn yn uwch na'r ystod yma. Mae'r Bwrdd wrthi'n ystyried sut i ostwng lefel y cronfeydd rhydd wrth gefn.

Yn rhan o'r cyfrifoldebau sydd gan yr Ymddiriedolwyr am sicrhau bod y sail busnes gweithredol yn cael ei mabwysiadu'n briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ystyriwyd amrediad o sefyllfaoedd. Mae'r tybiaethau wedi eu modelu ar y rhagolygon am effaith bosibl y newidiadau sy'n hysbys yn y sector ac yn y rheoliadau, ochr yn ochr â'r ymatebion a gynigiwn ar gyfer y 18 mis nesaf.

Ar sail yr adolygiad hwn, mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol, y mae'r Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn briodol o edrych ar ganlyniadau'r flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 a'r sefyllfa a ragfynegwyd ac amcanestyniadau llif arian a baratowyd ar gyfer
y cyfnod hyd 31 Gorffennaf 2026. Mae'r amcanestyniadau llif arian yn dangos y bydd y grŵp yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus ac y bydd yn gallu gweithredu o fewn y darpariaethau sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd materol ynghylch hyfywedd ariannol y cwmni elusennol.

Mae QAA yn dal cronfeydd wrth gefn am dri phrif reswm:

- i sicrhau ei sefyllfa dymor hir
- i gyflawni'r amcanion tymor canolig sydd yn strategaeth QAA, drwy sicrhau bod lefelau cronfeydd wrth gefn yn amddiffyniad yn erbyn risgiau tymor canolig i'r busnes ac yn rhoi ystyriaeth lawn i gostau'r amcanion tymor canolig
- i sicrhau ei bod yn gallu gweithredu'r rhaglen waith sydd wedi ei disgrifio yn y cynllun blynyddol ar gyfer y flwyddyn nesaf - er enghraifft, drwy ymdrin â'r diffygion cymeradwy

mewn gweithgareddau tymor byr nad ydynt wedi eu cyllido'n llawn.

Mae Cronfa ddynodedig ar gyfer Arloesi a Datblygu wedi ei chlustnodi "ar gyfer arloesi mewn cynhyrchion a gwasanaethau er budd addysg uwch y DU yn y tymor hir". Balans agoriadol y gronfa oedd £391,721; talwyd £192,900 yn ystod y flwyddyn i ariannu datblygiad gwasanaethau newydd i'r DU.

Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2024, cytunodd y Bwrdd i glustnodi cronfa ychwanegol o £156,000 ar gyfer 'Trawsnewid busnes'.

Ar 31 Gorffennaf 2024, cronfeydd rhydd wrth gefn QAA fel y maent wedi eu diffinio gan y Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau oedd £5,992,030 (2023: £2,501,542).

## Rheoli'r trysorlys

Y prif egwyddorion sy'n tanategu polisi rheoli trysorlys QAA yw sicrhau:

- Bod gan QAA ddigon o arian a chyfalaf gweithio i sicrhau bod ganddi ddigon o arian ar gael bob amser i gyflawni ei hamcanion busnes
- Bod buddsoddiadau QAA yn ddiogel - cyflawnir hyn drwy sicrhau bod ei buddsoddiadau awdurdodedig yn adlewyrchu agwedd ochelgar, gwrth risg, tuag at y sefydliadau y gellid rhoi arian i mewn iddynt, ac yn cyfyngu ar ei gweithgareddau buddsoddi i'r rheiny a gymeradwyir
- Mae QAA yn sicrhau'r ad-daliad mwyaf ar ei buddsoddiadau, gan ystyried yr egwyddorion allweddol eraill
- Mae QAA yn lleihau'r risg o dwyll neu wall yn ei gweithgareddau rheoli trysorlys - sicrheir hyn drwy gynllunio systemau, gweithdrefnau a threfniadau rheoli wrth gefn sy'n addas i leihau'r risg o dwyll neu wall.

Yn ystod 2023-24, parhawyd i ddilyn y dull buddsoddi y cytunwyd arno gan yr ymddiriedolwyr, a chafodd y cronfeydd oedd ar gael eu rhannu'n dybiannol yn dair cangen a'u rheoli fel a ganlyn:

- **cyfalaf gweithio tymor byr** - sy'n cael ei ddal gan fancwyr QAA, HSBC Bank plc, a'i reoli'n fewnol
- **cronfeydd arian tymor canolig** - a fuddsoddwyd gyda HSBC Bank plc a Lloyds Bank plc a'u rheoli'n fewnol yn unol â'n cynllun llif arian i fodloni'r gofynion am gyfalaf gweithio tymor byr
- **cronfeydd tymor hirach wrth gefn** - rhoddwyd mwy na £6 miliwn gyda Rathbones Investment Management Limited (Rathbones) i'w fuddsoddi yn ôl eu disgresiwn mewn cyfranddaliadau rhestredig a stociau'r llywodraeth.

Mae'r cronfeydd a roddwyd gyda Rathbones yn cael eu buddsoddi mewn cronfa elusennol benodol sy'n atebol i gyfyngiadau buddsoddi moesegol. Yn ystod y flwyddyn, estynnwyd y cyfyngiadau hyn i wahardd buddsoddiadau mewn tanwydd ffosil.

Gellir priodoli'r incwm o fuddsoddiadau yn ystod y flwyddyn i'r £68,470 o logau derbyniadwy o falansau cyfalaf gweithio tymor byr, ynghyd â £211,641 o logau a difidendau a dderbyniwyd o fuddsoddiadau asedau sefydlog.

Gwerth marchnadol y buddsoddiadau yw £6.6 miliwn (2023: £6.0 miliwn). Y colledion net heb eu gwireddu yng ngwerth y cronfeydd ar y farchnad ar 31 Gorffennaf 2024 oedd £12,129 (2023: enillion o £372,466); mae hyn yn adlewyrchu'r ansicrwydd yn y marchnadoedd stoc ledled y byd. Mae gwarged y llogau a'r difidendau a dderbyniwyd ar ôl talu ffioedd am reoli, ynghyd ag enillion neu golledion net a gafwyd, yn dal i gael eu buddsoddi.

Mae'r dull yma'n cael ei fonitro a'i reoli'n fanwl i sicrhau bod egwyddorion y polisi rheoli trysorlys yn cael eu cyflawni.

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## Strwythur, trefn lywodraethol a threfn reoli

Mae QAA yn gwmni preifat, cyfyngedig drwy warant, ac mae wedi ei chofrestru fel elusen yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Dyma oedd pedwar aelod ein cwmni ar 31 Gorffennaf 2024:

- GuildHE Limited
- Prifysgolion yr Alban
- Prifysgolion y DU
- Prifysgolion Cymru.

Os bydd sefyllfa'n codi lle mae'r cwmni'n cael ei ddirwyn i ben, bydd atebolrwydd aelodau ein cwmni wedi ei gyfyngu i swm nad yw'n uwch na £1 i bob aelod.

Cawsom ein sefydlu o dan Femorandwm Cymdeithasu a chawn ein llywodraethu o dan ein Herthyglau Cymdeithasu, sy'n nodi ein cyfansoddiad a'n nodau.

Dyma ein nodau:

- hybu a chynnal ansawdd a safonau mewn addysg drydyddol yn y DU a thu hwnt;
- gwella'r dysgu a'r addysgu, a hybu a chanfod arloesedd ac arferion da mewn dysgu ac addysgu;
- darparu gwybodaeth a chyhoeddi adroddiadau ar ansawdd a safonau mewn addysg drydyddol yn y DU a thu hwnt;
- rhoi cyngor i lywodraethau, yn ôl y gofyn, ar gydnabod cyrsiau Mynediad i AU a chyngor mewn perthynas â phob un neu unrhyw un o'r nodau uchod.

## Llywodraethu

Yn rhan o ymrwymiad parhaus QAA i arferion llywodraethu da ac arweinyddiaeth dda, mae aelodau'r Bwrdd wedi cwblhau archwiliad o'u sgiliau. Parheir i gynnal trafodaethau un-i-un blynyddol rhwng y Cadeirydd ac aelodau unigol o'r Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd hefyd wedi adolygu, ac wedi cymeradwyo lle bo'n briodol:

- Trothwyon QAA o ran cymryd a chaniatáu risgiau
- Y Cod Ansawdd Addysg Uwch
- Y Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch
- Y dull Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol
- Adroddiad am gydymffurfiad QAA â Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Nifer o bolisïau a gweithdrefnau, yn cynnwys:

- Y Drefn Apelio Gyfunol
- Gweithdrefn Hawliau Gwrthrych y Data
- Polisi Rhyddid i Leisio Barn
- Cynllun Awdurdodau Dirprwyedig
- Gweithdrefn ar gyfer Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth
- Newidiadau yn y cynllun 'Cyber Essentials'
- Datganiad am Gaethwasiaeth Fodern.

### Recriwtio a phenodi i'r Bwrdd

Cyfarwyddwyr ein Bwrdd yw ein hymddiriedolwyr hefyd, at ddibenion cyfraith elusennau. Adolygwyd yr Erthyglau Cymdeithasu i ganiatáu i'r Bwrdd gyfethol hyd at dri aelod arall er mwyn sicrhau bod ganddo'r ystod gyfan o sgiliau a phrofiad sy'n angenrheidiol i adlewyrchu natur gymhleth ac amrywiol y sector addysg drydyddol yn y DU a thramor. Erbyn hyn, mae'r Erthyglau'n caniatáu penodi hyd at 20 ymddiriedolwr, yn ôl y drefn ganlynol:

- Tymor mewn swydd o dair blynedd, gyda'r opsiwn o un tymor arall o dair blynedd:
  - enwebir tri aelod, ar y cyd gan y tri chorff cyllido ar gyfer addysg uwch y DU (yr Adran Addysg yng Ngogledd Iwerddon, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido'r Alban), a'u penodi gan y Bwrdd;
  - enwebir pedwar aelod, ar y cyd gan gyrff cynrychioli sector addysg uwch y DU (GuildHE, Prifysgolion yr Alban, Prifysgolion y DU a Phrifysgolion Cymru), a'u penodi gan y Bwrdd;
  - enwebir un aelod gan gorff cynrychioli'r colegau yn y DU, a'u penodi gan y Bwrdd;
  - penodir chwe aelod annibynnol gan y Bwrdd;
  - penodir un aelod annibynnol gan y Bwrdd, sy'n cymryd rhan yn gyfan gwbl neu'n bennaf, ar amser ei benodi/phenodi, yn y gwaith o reoli neu lywodraethu darparwr amgen sy'n cynnig addysg uwch;
  - cyfetholir hyd at dri aelod arall gan y Bwrdd sy'n gallu cyfrannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o feysydd eraill y mae'r Bwrdd yn eu hystyried yn fanteisiol.
- Tymor mewn swydd o un flwyddyn, gyda'r opsiwn o un tymor arall o un flwyddyn:
  - penodir un aelod annibynnol gan y Bwrdd sydd, ar amser ei benodi/phenodi, yn fyfyriwr israddedig neu ôl-raddedig cofrestredig, yn swyddog undeb myfyrwyr, neu'n swyddog corff cynrychioli myfyrwyr a etholwyd o blith y myfyrwyr;
  - enwebir un aelod gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a'i benodi/phenodi gan y Bwrdd.

Mae'r aelodau ar ein Bwrdd yn cynrychioli'r amrywiaeth yn sector addysg uwch y DU, gan gynnwys y myfyrwyr, gyda chymysgedd cyfoethog o sgiliau a phrofiad. Yn unol â gofynion ein Herthyglau, mae gan y chwe aelod annibynnol ar ein Bwrdd brofiad mewn materion diwydiannol, masnachol ac ariannol, neu arferion proffesiynol. Rydym yn hysbysebu swyddi gwag yn gyhoeddus i recriwtio ein haelodau annibynnol, yn dilyn asesu pa sgiliau yr ydym eu hangen ar ein Bwrdd. Mae ein Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau'n cynghori'r Bwrdd i sicrhau bod ein proses ddethol a phenodi'n deg ac yn eglur.

Mae aelodau ein Bwrdd i gyd yn gyfarwyddwyr anweithredol. Maent yn rhoi eu hamser i ni'n wirfoddol ac nid ydynt yn derbyn unrhyw daliadau neu fuddion gan yr elusen. Mae'r treuliau a hawliwyd gan aelodau ein Bwrdd yn ystod 2023-24 wedi eu cynnwys yn nodyn 10 ein datganiadau ariannol.

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Mae prif gyfrifoldebau ein Bwrdd yn cynnwys:

- cymeradwyo ein cenhadaeth a'n gweledigaeth strategol, ein cynlluniau strategol, ein cyllidebau a chynlluniau blynyddol, a dangosyddion perfformiad allweddol
- sicrhau bod systemau o reolaeth ac atebolrwydd yn cael eu sefydlu a'u monitro
- sicrhau bod prosesau yn eu lle i fonitro a gwerthuso ein perfformiad a'n heffeithiolrwydd
- penodi'r Prif Weithredwr a rhoi trefniadau addas yn eu lle i fonitro ei pherfformiad/berfformiad
- gweithredu fel ein prif awdurdod ar faterion ariannol a busnes
- sicrhau ein bod yn cadw cyfrifon sy'n gywir ac yn briodol
- cymeradwyo ein hadroddiad blynyddol a'n datganiadau ariannol
- cymryd y cyfrifoldeb cyffredinol am ein hasedau, ein heiddo a'n hystâd.

Mae ein Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am reoli'r elusen o ddydd i ddydd i'n Prif Weithredwr, yn unol â chynllun dirprwyo. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, cynghorir a chefnogir y Prif Weithredwr gan y Tîm Gweithredol a'r Uwch Dîm Rheoli ehangach.

## Ymsefydlu aelodau newydd o'r Bwrdd

Mae aelodau'r Bwrdd sydd newydd eu penodi'n derbyn y dogfennau canlynol, ac maent yn llofnodi datganiad i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y dogfennau:

- Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau: *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol* a'r *Cod Llywodraethu i Elusennau*
- Cyhoeddiad Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban: *Guidance and Good Practice for Charity Trustees*
- Cyhoeddiad QAA: *Cod Arferion Da mewn Llywodraethu* (sy'n cynnwys canllawiau am ymddygiad moesegol, dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol, ac arferion llywodraethu da).

Mae pob aelod newydd o'r Bwrdd yn derbyn rhaglen ymsefydlu unigol o gyfarfodydd gyda'r Cadeirydd a staff uwch. Mae hyn yn eu cyflwyno i QAA, ein trefnau llywodraethu a gweithredu a'n cynlluniau strategol. Mae ein Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol (Ysgrifennydd ein Cwmni) ac Ysgrifennydd Cynorthwyol ein Cwmni ar gael i gefnogi aelodau'r Bwrdd i gyflawni eu dyletswyddau statudol, gan ddarparu cyngor a chyfarwyddyd fel y bo'r gofyn.

## Gweithgareddau aelodau'r Bwrdd

Mae blwyddyn nodweddiadol un o aelodau ein Bwrdd yn debygol o gynnwys mynd i:

- bedwar cyfarfod Bwrdd (un diwrnod i bob cyfarfod)
- 'ddiwrnod allan' strategol
- gynhadledd flynyddol QAA
- mynd i gyfarfodydd pwyllgorau a gweithgorau a gynhelir i bwrpasau penodol (fel y bo'n ofynnol).

Cynhelir cyfarfod wyneb yn wyneb y Bwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn fel arfer; gallai eraill gael eu cynnal ar-lein. Cynhelir cyfarfodydd pwyllgorau ar-lein fel arfer.

Yn ogystal, efallai bod gan aelodau ein Bwrdd gyfrifoldeb am faes penodol, a'u bod yn gweithio gyda staff i ddarparu cyngor a chefnogaeth, a fydd yn eu tro'n gwella dealltwriaeth a gwaith craffu'r Bwrdd.

Yn ystod blwyddyn 2023-24, y presenoldeb cyfartalog yng nghyfarfodydd y Bwrdd oedd 90% (95% yn 2022-23). Dyma oedd cyfraddau presenoldeb aelodau unigol y Bwrdd:

| Enw | Y presenoldeb yn 2023-24 (allan o bedwar cyfarfod) |
|---|---|
| Craig Watkins | 2 (o'r 2 a gynhaliwyd) |
| John Sawkins | 4 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Tim Woods | 4 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Chloe Field | 2 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Nic Beech | 4 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Oliver Turnbull | 4 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Sara Drake | 2 (o'r 2 a gynhaliwyd) |
| Simon Gaskell (Cadeirydd) | 4 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Vanessa Davies | 1 (o'r 1 a gynhaliwyd) |
| Sue Rigby | 1 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Rachid Hourizi | 4 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Karl Leydecker | 3 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Xenia Levantis | 4 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Peter Vermeulen | 4 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Fazal Dad | 3 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Alex Fraser | 4 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Phil Deans | 4 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Odette Hutchinson | 4 (o'r 4 a gynhaliwyd) |
| Richard Khaldi | 3 (o'r 3 a gynhaliwyd) |
| Ladan Saghafi | 3 (o'r 3 a gynhaliwyd) |
| Caroline Carter | 2 (o'r 3 a gynhaliwyd) |
| Alexander Stanley | 0 (o'r 0 a gynhaliwyd) |

Sicrhawyd cworwm ymhob cyfarfod, fel y mae'r cworwm wedi ei ddisgrifio yn ein Herthyglau Cymdeithasu.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Cynhaliwyd wyth pwyllgor y Bwrdd yn ystod y flwyddyn 2023-24, yn ogystal â'r Bwrdd Ymgynghorol sy'n dod ag uwch randdeiliaid at ei gilydd o'r sector addysg drydyddol. Mae gan bob un o'r pwyllgorau gylch gwaith penodol, ac mae'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau'n derbyn adroddiad am gyfranogaeth aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y pwyllgorau.

**Materion corfforaethol:**

- Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau
- Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau

**Cynghorol:**

- Y Pwyllgor Cynghori ar Strategaeth QAA Cymru
- Y Pwyllgor Cynghori ar Strategaeth QAA Scotland
- Y Pwyllgor Myfyrwyr i Gynghori ar Strategaeth
- Y Bwrdd Ymgynghorol

**Gweithredol:**

- Pwyllgor Cydnabod a Thrwyddedu Mynediad i AU
- Pwyllgor Cynghori ar bwerau dyfarnu graddau

## Bwrdd Cyfarwyddwyr QAA

Rhwng 1 Awst 2023 a 31 Gorffennaf 2024, gwasanaethodd yr unigolion canlynol fel cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr ar Fwrdd QAA:

| | |
|---|---|
| **Aelodau annibynnol** | |
| Simon Gaskell (Cadeirydd) | Cyn-lywydd a Chyn-bennaeth Prifysgol y Frenhines Mary, Prifysgol Llundain<br>(a benodwyd ym mis Mawrth 2019) |
| Vanessa Davies | Cyn-gyfarwyddwr Cyffredinol, Bwrdd Safonau'r Bar<br>(a benodwyd ym mis Rhagfyr 2017,<br>ac a oedd yn y swydd hyd fis Rhagfyr 2023) |
| Sara Drake | Prif Weithredwr, ICSA<br>(a benodwyd ym mis Ionawr 2018,<br>ac a oedd yn y swydd hyd fis Ionawr 2024) |
| Rachid Hourizi | Cyfarwyddwr yr Institute of Coding, Prifysgol Caerfaddon<br>(a benodwyd ym mis Mawrth 2022) |
| Craig Watkins | Prif Weithredwr a Rheolwr Gyfarwyddwr Kantar Public UK<br>(a benodwyd ym mis Rhagfyr 2017,<br>ac a oedd yn y swydd hyd fis Rhagfyr 2023) |
| Peter Vermeulen (Trysorydd Mygedol) | Prif Swyddog Cyllid, Prifysgol Bryste<br>(a benodwyd ym mis Mawrth 2023) |
| Ladan Saghafi | Athro Cyswllt Ymarferion, Prifysgol Brunel Llundain<br>(a benodwyd ym mis Rhagfyr 2023) |
| Caroline Carter | Cyfreithiwr anweithredol, Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr<br>(a benodwyd ym mis Rhagfyr 2023) |
| Richard Khaldi | Cyfarwyddwr y Siambrau, Maitland Chambers<br>(a benodwyd ym mis Ionawr 2024) |
| **Aelod annibynnol: darparwr amgen** | |
| Alex Fraser | Prif Weithredwr Sefydliad Bancio a Chyllid Llundain<br>(a benodwyd ym mis Mehefin 2023) |
| **Aelod annibynnol: myfyriwr** | |
| Sophia Xenia Levantis | Myfyriwr PhD ym Mhrifysgol Bryste<br>(a benodwyd ym mis Hydref 2022) |
| **Enwebwyd ar y cyd gan GuildHE Limited, Prifysgolion yr Alban, Prifysgolion y DU a Phrifysgolion Cymru** | |
| Karl Leydecker | Uwch-Is-Bennaeth Prifysgol Aberdeen<br>(a benodwyd ym mis Mehefin 2022) |
| Sue Rigby | Is-Ganghellor Prifysgol Sba Caerfaddon<br>(a benodwyd ym mis Hydref 2019) |
| Nic Beech | Is-Ganghellor Prifysgol Middlesex<br>(a benodwyd ym mis Medi 2021) |
| Tim Woods | Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth<br>(a benodwyd ym mis Hydref 2022,<br>ac a oedd yn y swydd hyd fis Awst 2024) |

| | |
|---|---|
| **Enwebwyd ar y cyd gan yr Adran Addysg yng Ngogledd Iwerddon, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido'r Alban** | |
| John Sawkins | Dirprwy Bennaeth (Addysg a Bywyd Myfyrwyr), Athro mewn Economeg, Prifysgol Heriot-Watt<br>(a benodwyd ym mis Hydref 2019) |
| Oliver Turnbull | Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu ac Addysgu), Athro mewn Niwroseicoleg, Prifysgol Bangor<br>(a benodwyd ym mis Medi 2019) |
| Odette Hutchinson | Dirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Ulster<br>(a benodwyd ym mis Mehefin 2023) |
| **Enwebwyd gan Gymdeithas y Colegau** | |
| Fazal Dad | Pennaeth a Phrif Weithredwr Coleg Blackburn<br>(a benodwyd ym mis Mawrth 2023) |
| **Enwebwyd gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr** | |
| Chloe Field | Is-lywydd (Addysg Uwch) UCM<br>(a benodwyd ym mis Gorffennaf 2022,<br>ac a oedd yn y swydd hyd fis Gorffennaf 2024) |
| Alexander Stanley | Is-lywydd (Addysg Uwch) UCM<br>(a benodwyd ym mis Gorffennaf 2024) |
| **Aelod cyfetholedig** | |
| Phil Deans | Llywydd Prifysgol Ryngwladol Americanaidd Richmond yn Llundain<br>(a benodwyd ym mis Mawrth 2023) |

## Y strwythur cyfundrefnol

Dyma oedd ein Tîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn 2023-24:

- Vicki Stott, Prif Weithredwr
- Caroline Blackburn, Cyfarwyddwr Cyllid
- Alastair Delaney, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
- Tom Yates, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol

Cafodd y Tîm Gweithredol ei gefnogi gan yr Uwch Dîm Rheoli ehangach.

### Taliadau a chyflogau

Mae ein Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau'n cynghori'r Bwrdd ar berfformiad y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol, ac ar daliadau diswyddo a chyflogau priodol. Wrth gynghori ar osod cyflog y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol, mae'r Pwyllgor yn cymryd i ystyriaeth y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol ar gyfer pob un o'r rolau, a'r tâl mewn sectorau y byddai modd canfod ymgeiswyr addas ynddynt ar gyfer swyddi o'r fath. Mae'r cyflogau ar gyfer gwahanol swyddi'n cael eu dilysu'n wrthrychol, gan ddefnyddio cymaryddion o'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys edrych ar ddata o arolygon cyflogau i weld rolau cymaradwy o nifer o sectorau, gan gynnwys elusennau, sefydliadau addysg uwch a sefydliadau yn yr ardal leol. Mae codiadau cyflog i'r holl gydweithwyr yn cael eu trafod rhwng y Tîm Gweithredol, y Tîm Adnoddau Dynol ac Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol.

### Cynaliadwyedd a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Mae QAA wedi ei hymrwymo i weithio mewn ffordd foesegol sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ymhob maes o'n busnes. Mae ein gwaith yn diogelu safonau ac yn gwella ansawdd addysg uwch y DU, lle bynnag y mae'n cael ei darparu ledled y byd. Mae ein dull o weithredu busnes yn cymryd i ystyriaeth effaith ein gwaith ar yr amgylchedd, ein staff, ein cyflenwyr, ein cymunedau lleol, y sector addysg uwch, a'r gymdeithas ehangach. Yn 2024, gwnaethom ymrwymiad i gyflawni'r targed 'Sero Net' erbyn 2040. Mae ein Polisi Cynaliadwyedd a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol diweddaraf (yn weithredol o 2023) yn nodi ein hamcanion a'r gweithgareddau a wnawn i'w cefnogi, a'r ffordd y mae QAA yn cefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, sef:

- cynnal diwylliant busnes a dull o wneud ein gwaith sy'n foesegol ac yn eglur
- gostwng ein heffaith negyddol ar yr amgylchedd
- cyfrannu at ddatblygiad ein cymunedau
- parchu ein cydweithwyr a'u hannog i'w datblygu.

Mae ein perfformiad a'n heffaith yn cael eu monitro gan ein Pwyllgor Cynaliadwyedd a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, sy'n adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli, a gan Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau ein Bwrdd.

### Diogelu data

Ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol yn ystod 2023-24.

### Gweithgareddau codi arian

Ni chynhaliodd yr elusen unrhyw weithgareddau codi arian yr oedd gofyn eu datgelu o dan S162A Deddf Elusennau 2011.

### Datganiad cydraddoldeb

Rydym yn cydnabod bod tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn dod â manteision mawr, ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd, cynhyrchion a gwasanaethau, ochr yn ochr â'n hymrwymiad ehangach i sicrhau ansawdd, sy'n croesawu amrywiaeth ac yn hybu tegwch ac amrywiaeth. Rydym yn dangos hyn yn ein polisïau mewnol a'n ffyrdd o weithio. Rydym hefyd yn ei ymgorffori yn ein gwaith, am fod tegwch yn rhan annatod o'n dull o sicrhau a gwella ansawdd. Mae tegwch yn elfen allweddol o'n syniad o brofiad addysgol o safon uchel a'r disgwyliadau y mae hawl gan fyfyrwyr eu cael am ddarparwyr addysg uwch y DU.

Mae gan y Tîm Adnoddau Dynol a Datblygiad Cyfundrefnol gyfrifoldeb strategol am ddatblygiad cyfundrefnol, yn cynnwys tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae ein gwaith o hybu tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn mynd rhagddo'n barhaus, ac rydym yn adolygu ein polisïau a'n harferion mewnol perthnasol yn rheolaidd. Rydym yn cynnal arolwg ar draws yr Asiantaeth gyfan, y gwahoddir ein holl gydweithwyr (yn cynnwys ein hadolygwyr) i gymryd rhan ynddo. Mae'n canolbwyntio ar ddemograffeg yr Asiantaeth ac mae'n ein helpu i ganfod gwelliannau angenrheidiol a phenderfynu ar y camau i'w cymryd yn y dyfodol.

### Gweithio er budd y cyhoedd

O dan Ddeddf Elusennau 2011, mae dyletswydd arnom i roi adroddiad am y budd cyhoeddus a ddarparwn. Mae ein hymddiriedolwyr yn ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar y budd cyhoeddus - y rhoddir crynodeb ohono i aelodau ein Bwrdd wrth eu penodi - ac mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bod ein gwaith i gefnogi sector addysg drydyddol y DU - sy'n cynnwys helpu i ddarparu mynediad i addysg uwch i nifer fawr o fyfyrwyr a gweithio'n fwy cyffredinol er budd y myfyrwyr - yn bodloni'r gofynion sydd arnom ni o ran y budd cyhoeddus.

### Hysbysiad am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Mae QAA yn parhau i gryfhau ei hymrwymiad i'r Gymraeg, fel sydd wedi ei nodi yn yr Hysbysiad am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg y mae dyletswydd ar QAA i gydymffurfio â nhw. Mae QAA yn parhau i gynhyrchu adroddiadau blynyddol am ei hymrwymiad i'r Gymraeg sy'n nodi sut, ac i ba raddau, y mae'r Asiantaeth yn cydymffurfio â'r gofynion sydd arni, yn ogystal â nodi camau i'w cymryd i gydymffurfio'n well. Mae'r adroddiadau'n cael eu hystyried gan Weithgor y Gymraeg traws-sefydliadol QAA a'u cymeradwyo gan ei Phwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau.

### Y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG)

Mae cydymffurfio â'r ESG yn sylfaenol i QAA, nid yn unig fel sail i'w holl waith yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a'i gwaith yn Lloegr, drwy ei model aelodaeth, ond hefyd i'r athroniaeth sylfaenol o sicrhau ansawdd yn gydweithredol o dan arweiniad cymheiriaid sy'n tanategu diben craidd QAA.

Canfu'r adolygiad a gafwyd gan Gymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop (ENQA) ym mis Mawrth 2023 fod QAA yn cydymffurfio â'r ESG.

### Perthynas gyda phartïon cysylltiedig

Mae is-gwmni QAA - QAA Enterprises Limited - yn gwmni preifat, cyfyngedig drwy gyfrannau, ac mae wedi ei reoli gan ei Erthyglau Cymdeithasu ei hun sy'n nodi ei gyfansoddiad. Ar hyn o bryd, nid yw'r is-gwmni'n cael ei ddefnyddio'n weithredol.

Wrth eu penodi, mae pob aelod o Fwrdd QAA yn cwblhau datganiad o fuddiannau, a chofnodir unrhyw wrthdrawiadau buddiannau yng nghofnodion pob cyfarfod.

### Y prif risgiau a'r prif feysydd o ansicrwydd

Ein Bwrdd sy'n gyfrifol yn y pen draw am ein dull o reoli risgiau, sydd wedi ei ddisgrifio yn ein polisi rheoli risgiau. Rydym yn cofnodi risgiau strategol yn ein cofrestr o risgiau strategol, a rheolir risgiau gweithredol drwy gofrestrau o risgiau gweithredol, a allai gynnwys cofrestrau neilltuedig ar gyfer prosiectau neu weithgareddau penodol.

Adolygir y gofrestr o risgiau strategol gan ein Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau ymhob un o'i gyfarfodydd, ac ymhob un o gyfarfodydd ein Bwrdd.

Dyma oedd rhai o'r risgiau a ystyriwyd yn sylweddol ar y cam 'risg cynhenid' (cyn ei leihau) yn ystod 2023-24: risgiau i refeniw'r Asiantaeth o ganlyniad i'r pwysau ariannol ehangach ar y sector a risgiau sy'n gysylltiedig â llywio drwy'r tirlun rhanddeiliaid amrywiol sy'n esblygu yng ngwledydd gwahanol y DU. Er mwyn lleihau'r risgiau hyn, cynlluniwyd ailstrwythuriad yr asiantaeth yn ystod 2024-25, ymysg

camau eraill. Hefyd, ystyriwyd bod y risgiau hynny sy'n codi o dwf parhaus technolegau deallusrwydd artiffisial yn risgiau sylweddol, a bod ganddynt oblygiadau mawr i uniondeb academaidd a sicrwydd ansawdd. Roedd bygythiad i seiberddiogelwch yn dal i fod yn risg gweithredol sylweddol hyd yn oed ar y cam 'risg gweddillol' (wedi ei leihau), er gwaethaf y camau gweithredu cynhwysfawr a gymerwyd i'w leihau sy'n cynnwys cwblhau archwiliad ISO27001 blynyddol, gwneud profion hacio'n gyfnodol, a chyflwyno technoleg prawf dilysu aml-ffactor ar draws yr Asiantaeth.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod risgiau a meysydd o ansicrwydd yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol.

## Cyfeiriadau a manylion gweinyddol

| | |
|---|---|
| **Enw cofrestredig** | Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch |
| **Enwau eraill a ddefnyddir gan y cwmni** | QAA, QAA Scotland |
| **Rhif cofrestru'r cwmni** | 03344784 (Cymru a Lloegr) |
| **Rhifau cofrestru'r elusen** | 1062746 (Cymru a Lloegr)<br>SC037786 (Yr Alban) |
| **Swyddfa gofrestredig a phrif swyddfa** | Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB |
| **Cyfeiriadau gweithredol** | Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB |
| **Ysgrifennydd y Cwmni** | Tom Yates, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol |
| **Yr uwch reolwr (sydd ag awdurdod dirprwyedig)** | Vicki Stott, Prif Weithredwr |
| **Bancwyr** | HSBC Bank plc, The Cross, Caerloyw GL1 2AP<br>Lloyds Bank plc, 10 Gresham Street, Llundain EC2V 7AE |
| **Rheolwyr buddsoddiadau** | Rathbones Investment Management Limited, 1 Curzon Street, Llundain W1J 5FB<br>Barclays Private Bank (Barclays Bank plc), 40-42 Queen Square, Bryste BS1 4QP |
| **Cyfreithwyr** | Shakespeare Martineau, No 1 Colmore Square, Birmingham B4 6AA |
| **Archwilydd annibynnol** | Crowe U.K. LLP, 4ydd Llawr, St James House, St James Square, Cheltenham GL50 3PR |

## Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r cyfarwyddwyr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr, a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r *Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig* (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig).

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith cwmnïau bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol am bob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith cwmnïau, ni chaiff yr ymddiriedolwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol heblaw eu bod yn fodlon bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni elusennol a'r grŵp, ac o adnoddau sy'n dod i mewn ac adnoddau a ddefnyddir, gan gynnwys incwm a gwariant, y grŵp elusennol ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae gofyn i'r ymddiriedolwyr:

- ddethol polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson
- gydymffurfio â'r dulliau a'r egwyddorion yn y *Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau*
- ffurfio beirniadaethau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth
- nodi a yw safonau cyfrifyddu perthnasol y DU wedi eu dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod hi'n amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i fod mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i dangos ac esbonio trafodion y cwmni elusennol, ac sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol, ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â: *Deddf Cwmnïau 2006*; *Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005*; *Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006* (fel y'u diwygiwyd); a darpariaethau cyfansoddiad yr elusen. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a'r grŵp, ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysonderau eraill.

## Gwybodaeth i'r archwilydd

Mewn perthynas â phob un o'r unigolion oedd yn gyfarwyddwyr y cwmni ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn:

- cyn belled ag y bo pob un o gyfarwyddwyr y cwmni oedd â swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn ymwybodol, nid oes gwybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad (sef gwybodaeth sy'n angenrheidiol os yw archwilydd y cwmni am baratoi'r adroddiad archwilio) nad yw archwilydd y cwmni'n ymwybodol ohoni
- mae pob un o'r cyfarwyddwyr wedi cymryd pob cam y dylai ef neu hi eu cymryd fel cyfarwyddwr i'w gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad ac i sicrhau bod archwilydd y cwmni'n ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Yr archwilydd

Yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Rhagfyr 2024, cytunwyd ar gynnig i ailbenodi Crowe U.K. LLP yn archwilydd i'r cwmni.

Cymeradwywyd yr Adroddiad Strategol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 11 Rhagfyr 2024, a chawsent eu llofnodi ar ran y Bwrdd gan:

| | |
|---|---|
| **Yr Athro Simon Gaskell**<br>**Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr** | **Tom Yates**<br>**Ysgrifennydd y Cwmni** |

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau ac Ymddiriedolwyr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

## Ein barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (sef y 'cwmni elusennol') a'i his-gwmnïau (y 'grŵp') ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024, sy'n cynnwys Datganiad o Weithgareddau Ariannol y Grŵp, Mantolenni'r Grŵp a'r Elusen, Datganiadau Llif Arian y Grŵp a'r Elusen, a'r nodiadau i gyd-fynd â'r datganiadau ariannol, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (yr Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y grŵp a'r cwmni elusennol fel oeddent ar 31 Gorffennaf 2024, ac o incwm a gwariant y grŵp, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben wedi hynny;
- wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi'n unol â gofynion *Deddf Cwmnïau 2006*, *Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005* a rheoliadau 6 ac 8 *Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006* (fel y'u diwygiwyd).

## Sail ein barn

Gwnaethom ein gwaith archwilio yn unol â'r *Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU)* a'r gyfraith berthnasol. Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn adran ein hadroddiad am gyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol i'r grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys *Safonau Moesegol* y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth a gawsom o'r archwiliad yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail ar gyfer ein barn.

## Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad bod y defnydd a wneir gan yr ymddiriedolwyr o'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn ddefnydd priodol.

Ar sail y gwaith yr ydym wedi ei wneud, nid ydym wedi canfod unrhyw feysydd o ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, achosi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r cwmni elusennol neu'r grŵp i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol wedi eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, heblaw'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrhau arnynt, ac eithrio i'r graddau a nodwyd yn eglur fel arall yn ein hadroddiad.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol wahanol i'r datganiadau ariannol neu i'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad neu'n

ymddangos ei bod wedi ei cham-ddatgan yn faterol mewn unrhyw ffordd arall. Os byddwn yn canfod unrhyw anghysondeb sylweddol neu unrhyw gamddatganiad sylweddol ymddangosiadol o'r fath, mae gofyn i ni benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os down i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaethom, bod camddatganiad sylweddol yn y wybodaeth arall yma, mae'n rhaid i ni roi gwybod am y hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â hyn.

**Barn am faterion eraill a ragnodir gan *Ddeddf Cwmnïau 2006***

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaethpwyd yn ystod ein harchwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr a'r adroddiad strategol a baratowyd at ddibenion cyfraith cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol amdanynt, yn gyson gyda'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr sy'n rhan o adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi eu paratoi'n unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion y mae gofyn i ni adrodd arnynt drwy eithriad**

O ystyried y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddysgwyd am y grŵp a'r cwmni elusennol a'u hamgylchedd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi canfod unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr adroddiad strategol neu adroddiad y cyfarwyddwyr sy'n rhan o adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn y mae *Deddf Cwmnïau 2006* a *Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006* yn gofyn ein bod yn adrodd amdanynt i chi os, yn ein barn ni:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu sy'n gywir ac yn briodol; neu os
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyfateb gyda'r cofnodion cyfrifyddu a'r adroddiad blynyddol; neu os
- na wneir datgeliadau penodol am gyflogau'r ymddiriedolwyr y mae gofyn eu gwneud yn gyfreithiol; neu os
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr ydym eu hangen ar gyfer ein gwaith archwilio.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel sydd wedi ei esbonio'n llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr sydd i'w gael ar dudalen 23, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am eu bodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac maent hefyd yn gyfrifol am reolaeth fewnol o'r math sydd wedi ei farnu'n angenrheidiol gan yr ymddiriedolwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd heb unrhyw gamddatganiad sylweddol ynddynt, p'un a yw hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a'r defnydd a wneir o'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol heblaw bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i'w weithredoedd, neu os nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol**

Rydym wedi cael ein penodi'n archwilydd o dan adran 44(1)(c) Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 ac o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Deddfau a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sydd ag effaith o dan y Deddfau hynny.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad oes gan y datganiadau ariannol cyfan unrhyw gamddatganiad sylweddol, p'un a yw hynny wedi ei achosi gan dwyll neu wall, a chynhyrchu adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn ni. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrhad lefel uchel, ond nid yw'n gwarantu bod archwiliad a wneir yn unol â'r *Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU)* yn canfod camddatganiad sylweddol bob tro pan mae un i'w gael. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn faterol berthnasol os gellir disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir gan ddefnyddwyr ar faterion economaidd ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Manylir isod i ba raddau yr oedd y broses archwilio'n debygol o fod yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll ac achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau o ran archwilio'r datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol ar: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

**Y graddau yr oedd y broses archwilio'n debygol o fod yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll**

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Aethom ati i ganfod ac asesu risgiau camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol yn sgil afreoleidd-dra, p'un a oedd hynny wedi ei achosi gan dwyll neu wall, a thrafodwyd y materion hyn gan aelodau ein tîm archwilio. Yna, aethom ati i gynllunio a defnyddio gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hynny, a chawsom dystiolaeth o'r archwiliad oedd yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail ar gyfer ein barn.

Cawsom ddealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r cwmni elusennol a'r grŵp yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar bennu symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. Dyma'r cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn: *Deddf Cwmnïau 2006*, *Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005*, yn ogystal â Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau 2019 (Safon Adrodd Ariannol 102). Yn rhan o'n gwaith o archwilio'r eitemau cysylltiedig ar y datganiadau ariannol, roeddem wedi asesu'r cydymffurfiad gofynnol â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn.

Yn ogystal, ystyriwyd darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol ond y gallai cydymffurfiaeth â hwy fod yn sylfaenol i allu'r cwmni elusennol a'r grŵp i weithredu neu i osgoi cosb berthnasol. Ystyriwyd hefyd y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn y cwmni elusennol a'r grŵp ar gyfer twyll. Dyma'r cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn ar gyfer gweithrediadau yn y DU: *Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017*, y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC), y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a'r ddeddfwriaeth cyflogaeth.

O dan y safonau archwilio, mae'r gweithdrefnau archwilio gofynnol ar gyfer canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn wedi eu cyfyngu i'r canlynol yn unig: holi'r Ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill, ac adolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes rhai.

Gwelsom y byddai'r risg fwyaf o effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol yn sgil afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn ymwneud ag amseriad cydnabod incwm o gontractau, a phe bai rheolwyr yn diystyru rheolaethau. Yn rhan o'n gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hyn, aethom ati i gynnal ymholiadau ymhlith y rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau am eu gwaith eu hunain i ganfod ac asesu risgiau afreoleidd-dra, profi samplau o gyflwyniad dyddlyfrau, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu am ragfarnau, adolygu gohebiaeth reoleiddiol â'r Comisiwn Elusennau a Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban, cynllunio a gwneud gweithdrefnau i archwilio amseriad cydnabod incwm o gontractau, yn ogystal â darllen cofnodion cyfarfodydd y rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid unrhyw archwiliad, mae yna risg na ellir ei hosgoi na fyddwn efallai wedi canfod rhai camddatganiadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf oddi wrth y digwyddiadau

a'r trafodion sydd wedi eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol y mae'r diffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau (afreoleidd-dra), y lleiaf tebygol y maent o gael eu darganfod gan y gweithdrefnau cynhenid o gyfyngedig sy'n ofynnol yn ôl y safonau archwilio. Yn ogystal, yn debyg i bob archwiliad, roedd risg uwch o hyd o fethu canfod afreoleidd-dra, gan y gallai hyn gynnwys cyd-dwyllo, ffugio, methu nodi ffeithiau'n fwriadol, rhoi gwybodaeth gamarweiniol yn fwriadol neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfiaeth ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfiaeth â'r holl gyfreithiau a rheoliadau.

**Pwrpas ein hadroddiad**

Rhoddir yr adroddiad hwn i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â phennod 3 rhan 16 *Deddf Cwmnïau 2006*, ac i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol, fel corff, yn unol â rheoliad 10 *Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006*. Gwnaethpwyd ein gwaith archwilio fel bod modd i ni ddatgan i aelodau'r cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol arnom eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb, nac yn tybio bod cyfrifoldeb gan unrhyw un arall, heblaw'r cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, neu ar gyfer y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

[Nid yw'r adroddiad hwn wedi ei lofnodi eto]

Tara Westcott
Archwilydd Statudol Uwch

[Dyddiad:]

Ar gyfer ac ar ran

**Crowe U.K. LLP**
Archwilydd Statudol
St James House
St James Square
Cheltenham
GL50 3PR

## Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant cyfunol) ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024

| | **Nodiadau** | **2024** | 2023 |
|---|---|---|---|
| | | **£** | £ |
| | | **Cronfeydd anghyfyngedig** | Cronfeydd anghyfyngedig |
| **Yr incwm o:** | | | |
| Weithgareddau elusennol | 5 | **8,487,261** | 9,880,503 |
| Weithgareddau masnachol eraill | 3 | **–** | – |
| Fuddsoddiadau | 4 | **280,111** | 229,640 |
| **Cyfanswm yr incwm** | | **8,767,372** | 10,110,143 |
| **Y gwariant ar:** | | | |
| Gostau masnachu yn ymwneud â chodi arian | | **320** | 1,448 |
| Gostau rheoli buddsoddiadau | | **12,682** | 11,756 |
| **Codi arian** | | **13,002** | 13,204 |
| **Gweithgareddau elusennol** | 6, 7 | **5,821,643** | 9,457,004 |
| **Cyfanswm y gwariant** | | **5,834,645** | 9,470,208 |
| Enillion net/(colledion net) ar fuddsoddiadau | | **372,466** | (82,183) |
| **Yr incwm net a'r symudiad net yn y cronfeydd ar gyfer y flwyddyn** | 8 | **3,305,193** | 557,752 |
| **Cysoni'r cronfeydd** | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | **3,090,586** | 2,532,834 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | 22 | **6,395,779** | 3,090,586 |

Mae'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn cynnwys yr holl enillion a'r holl golledion a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r holl incwm a'r holl wariant yn dod o weithgareddau parhaus.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 31 i 56 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## Y mantolenni ar 31 Gorffennaf 2024

**(Rhif cwmni: 03344784)**

| | Nodiadau | Y Grŵp | | Yr Elusen | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2024** | 2023 | **2024** | 2023 |
| | | **£** | £ | **£** | £ |
| **Yr asedau sefydlog:** | | | | | |
| Asedau anniriaethol sefydlog | 12 | **97,759** | 132,937 | **97,759** | 132,937 |
| Asedau diriaethol | 13 | **50,636** | 64,386 | **50,636** | 64,386 |
| Buddsoddiadau | 14 | **6,587,757** | 6,016,331 | **6,587,758** | 6,016,332 |
| **Cyfanswm yr asedau sefydlog** | | **6,736,152** | 6,213,654 | **6,736,153** | 6,213,655 |
| **Yr asedau cyfredol:** | | | | | |
| Dyledwyr | 15 | **1,203,101** | 2,110,857 | **1,203,101** | 2,110,857 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | **3,712,188** | 3,677,367 | **3,711,835** | 3,674,164 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **4,915,289** | 5,788,224 | **4,914,936** | 5,785,021 |
| **Y rhwymedigaethau:** | | | | | |
| Credydwyr - symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 16 | **(5,096,199)** | (5,809,462) | **(5,096,200)** | (5,808,060) |
| **Yr asedau cyfredol net** | | **(180,910)** | (21,238) | **(181,264)** | (23,039) |
| **Cyfanswm yr asedau wedi tynnu rhwymedigaethau cyfredol** | | **6,555,242** | 6,192,416 | **6,554,889** | 6,190,616 |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau | 20 | **(159,463)** | (421,069) | **(159,463)** | (421,069) |
| Rhwymedigaeth o ran darpariaeth pensiynau | 21 | **–** | (2,680,761) | **–** | (2,680,762) |
| **Cyfanswm yr asedau net** | | **6,395,779** | 3,090,586 | **6,395,426** | 3,088,785 |
| **Cronfeydd y grŵp a'r elusen:** | | | | | |
| Cronfeydd dynodedig | 22 | **354,821** | 391,721 | **354,821** | 391,721 |
| Cronfeydd cyffredinol | 22 | **6,040,958** | 2,698,865 | **6,040,605** | 2,697,064 |
| **Cyfanswm y cronfeydd ar 31 Gorffennaf 2024** | | **6,395,779** | 3,090,586 | **6,395,426** | 3,088,785 |

Y gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol a dderbyniodd sylw yn natganiad ariannol y rhiant-elusen oedd £3,306,641 (2023: gwarged o £558,191).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 31 i 56 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 11 Rhagfyr 2024 a chawsent eu llofnodi ar ran y Bwrdd gan:

**Yr Athro Simon Gaskell, Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr**

## Y datganiad llif arian
## ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024

| | Nodiadau | Y Grŵp | | Yr Elusen | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2024** | 2023 | **2024** | 2023 |
| | | **£** | £ | **£** | £ |
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu:** | | | | | |
| Arian parod net a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredu | 24 | **2,786** | (655,227) | **5,636** | (653,014) |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi:** | | | | | |
| Incwm o fuddsoddiadau | | **280,111** | 229,640 | **280,111** | 229,640 |
| Enillion o werthu buddsoddiadau | | **6,608,939** | 7,920 | **6,608,939** | 7,920 |
| Prynu buddsoddiadau | | **(6,137,731)** | (694,696) | **(6,137,731)** | (694,696) |
| Prynu asedau anniriaethol sefydlog | | **–** | (5,850) | **–** | (5,850) |
| Prynu asedau diriaethol sefydlog | | **(49,116)** | (11,645) | **(49,116)** | (11,645) |
| **Yr arian parod net (a ddefnyddiwyd ar gyfer)/ a ddarparwyd gan weithgareddau buddsoddi** | | **702,203** | (474,631) | **702,203** | (474,631) |
| **Newid mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **704,989** | (1,129,858) | **707,839** | (1,127,645) |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | **3,677,374** | 4,807,232 | **3,674,171** | 4,801,816 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | 25 | **4,382,363** | 3,677,374 | **4,382,010** | 3,674,171 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 31 i 56 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r datganiadau ariannol
# ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024

## 1 Y statws cyfreithiol

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yn gwmni elusennol, cyfyngedig drwy warant. Mae QAA wedi ei chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr (rhif cofrestru: 1062746) a gyda Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif cofrestru: SC037786).
Corfforaethwyd yr elusen yn gwmni cyfyngedig drwy warant gyda Thŷ'r Cwmnïau yng Nghymru a Lloegr (rhif cofrestru: 03344784). Ei swyddfa gofrestredig a phrif swyddfa yw Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB.

## 2 Y polisïau cyfrifyddu

*Deddf Cwmnïau 2006*. Yn unol â gofynion *Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006* (fel y'u diwygiwyd), cynhwyswyd datganiad llif arian ar gyfer yr elusen.

### a Beirniadaethau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd ynglŷn ag amcangyfrif

I baratoi'r datganiadau ariannol mae angen i'r rheolwyr wneud beirniadaethau, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a nodir ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ar ddyddiad y fantolen a'r symiau a adroddwyd ar gyfer enillion a threuliau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd natur y broses o amcangyfrif, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Mae'r beirniadaethau a phrif ffynonellau'r ansicrwydd ynglŷn ag amcangyfrif sydd wedi cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabuwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cynnwys gyda'r polisi cyfrifyddu perthnasol isod.

### b Cyfrifyddu cronfeydd

Y cronfeydd anghyfyngedig yw'r adnoddau sy'n dod i mewn a dderbyniwyd neu a gynhyrchwyd ar gyfer eu gwario ar nodau cyffredinol QAA. Y cronfeydd dynodedig yw cronfeydd anghyfyngedig yr elusen sydd wedi eu neilltuo gan yr ymddiriedolwyr i ariannu gweithgareddau penodol yr elusen yn y dyfodol.

### c Incwm

Ariennir gweithgareddau QAA yn bennaf drwy gontractau gyda'r cyrff cyllido addysg uwch a'r llywodraethau yn y DU, a thrwy danysgrifiadau gan sefydliadau addysg uwch; nid yw'n creu incwm drwy godi arian. Rhoddir cyfrif am yr holl incwm pan fo gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, pan fo unrhyw faterion perfformiad sy'n berthnasol i'r eitem(au) incwm wedi eu cyflawni, pan fo'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a phan fo modd mesur maint yr incwm mewn ffordd ddibynadwy.

## d Gwariant a'r sail ar gyfer dyrannu costau

Rhoddwyd cyfrif am yr holl wariant ar sail croniadau ac mae wedi cael ei gofnodi fel gwariant y gellir ei briodoli i un o ddau gategori - 'codi arian' (sef cost rheoli buddsoddiadau'r elusen a'r costau masnachu yn ymwneud â chodi arian a wnaethpwyd gan yr is-gwmni) a 'gweithgareddau elusennol' fel y gwelwch yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Dim ond pan fo'n angenrheidiol y gall taliadau diswyddo neu derfynu contract ddigwydd a rhoddir cyfrif am y rhain ar sail croniadau pan roddir ymrwymiad i derfynu swydd ar sail diswyddo staff neu derfynu eu contract. Rhennir y gweithgareddau elusennol ymhellach yn bedwar amcan strategol yr elusen. O fewn y 'gweithgareddau elusennol', ystyrir y gwariant yn 'gostau uniongyrchol' neu 'gostau cefnogi' fel y gwelwch yn y nodyn ar 'gyfanswm y gwariant elusennol'.

## 2 Y polisïau cyfrifyddu (parhad)

Cafodd nifer y staff a chostau'r staff eu dyrannu naill ai:

- yn uniongyrchol i un neu fwy o'r tri gweithgaredd elusennol fel 'costau uniongyrchol', **neu**
- yn uniongyrchol i gostau llywodraethu fel 'costau cefnogi', **neu**
- eu dosrannu i'r tri gweithgaredd elusennol a'r costau llywodraethu fel 'costau cefnogi' gan ddefnyddio nifer y staff sydd wedi eu priodoli'n barod i'r gweithgareddau hynny.

Cafodd costau nad ydynt yn ymwneud â chyflog eu dyrannu naill ai:

- yn uniongyrchol i un neu fwy o'r tri gweithgaredd elusennol fel 'costau uniongyrchol', **neu**
- yn uniongyrchol i gostau llywodraethu fel 'costau uniongyrchol' neu 'gostau cefnogi', **neu**
- eu dosrannu i'r tri gweithgaredd elusennol a'r costau llywodraethu fel 'costau cefnogi' gan ddefnyddio nifer y staff sydd wedi eu priodoli'n barod i'r gweithgareddau hynny.

Mae costau llywodraethu'n cynnwys costau bodloni gofynion cyfansoddiadol a statudol, megis ffioedd archwilio, costau cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr a threuliau'r ymddiriedolwyr, a ffioedd cyfreithiol. Mae'r costau staffio a'r costau swyddfa sy'n gysylltiedig â chostau o'r fath wedi eu cynnwys mewn costau cefnogi. Yna caiff costau llywodraethu eu dosrannu i un o'r tri gweithgaredd elusennol.

### e Prydlesi gweithredu

Neilltuir y rhenti sy'n berthnasol i brydlesi gweithredu i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol dros y cyfnod pan grëir y gost ar sail linol dros gyfnod y brydles.

### f Asedau anniriaethol

Diddymir cost meddalwedd cyfrifiadurol arferol drwy ei roi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth i'r gost gael ei chreu. Mae meddalwedd a luniwyd yn benodol i QAA neu a brynwyd yn rhan o brosiect cyfalaf mwy, yn cael ei gyfalafu a'i ddiddymu dros gyfnod o bum mlynedd.

### g Asedau diriaethol sefydlog a dibrisiad

Darperir dibrisiad ar asedau diriaethol sefydlog ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddiddymu cost pob ased mewn rhandaliadau cyfartal dros gyfnod disgwyliedig ei oes economaidd ddefnyddiol.

Dyma'r cyfraddau dibrisiad:

- offer cyfrifiadurol: dros dair blynedd
- dodrefn ac offer mewn swyddfeydd: dros bum mlynedd
- gwelliannau i eiddo prydlesol: dros gyfnod y brydles sy'n weddill.

Nid yw asedau sy'n costio llai na £2,000 wedi eu cyfalafu heblaw eu bod yn rhan o brosiect cyfalaf mwy.

### h Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau rhestredig yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a chofnodir unrhyw symudiadau fel enillion neu golledion heb eu gwireddu yn y datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol. Cyfrifir unrhyw warged neu ddiffyg ar fuddsoddiadau a werthwyd yn ystod y flwyddyn drwy gymharu enillion net gyda'u gwerth ar y farchnad ar ddechrau'r flwyddyn a chânt eu cofnodi fel enillion neu golledion wedi eu gwireddu yn y datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol. Mae buddsoddiadau anrhestredig wedi eu cynnwys yn ôl eu cost.

## 2 Y polisïau cyfrifyddu (parhad)

### i Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr masnach, dyledwyr eraill ac incwm cronedig ar swm y taliad sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ddisgownt masnach. Pennir gwerth rhagdaliadau ar sail y swm a ragdalwyd yn net o unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

### j Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod wedi ei gynrychioli gan arian parod mewn llaw ac adneuon mewn sefydliadau ariannol.

### k Arian tramor

Yn y lle cyntaf, cofnodir unrhyw drafodion a wnaed mewn arian tramor yn arian cyfred gweithredol yr endid busnes drwy weithredu'r gyfradd gyfnewid ar y pryd a ddyfernir ar ddyddiad y trafodion. Aildrosir asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddangosir mewn arian tramor ar y gyfradd gyfnewid a ddyfernir ar ddyddiad y fantolen. Mae pob gwahaniaeth yn cael ei drosglwyddo i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

### l Credydwyr a darpariaethau

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau pan fo gan yr elusen ymrwymiad cyfredol, yn gyfreithiol neu'n adeiladol, o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol; mae'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwnnw, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy am swm yr ymrwymiad.

Mesurir darpariaethau yn ôl gwerth cyfredol y gwariannau y disgwylir iddynt fod yn ofynnol i fodloni'r ymrwymiad hwnnw.

Mae QAA yn darparu trefniadau gwyliau gyda chyflog i'w chyflogeion ac yn cydnabod y treuliau o fewn y cyfnod o waith a roddodd yr hawl yma i'r cyflogai gael y budd. Gwneir darpariaeth ar gyfer cost gwyliau a enillwyd ond nas cymerwyd.

### m Darpariaethau ariannol sylfaenol

Mae gan QAA asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o fath y gellir eu galw'n offerynnau ariannol sylfaenol. Cydnabyddir offerynnau ariannol sylfaenol yn y lle cyntaf ar eu gwerth trafod ac yn dilyn hynny cânt eu mesur ar eu gwerth talu.

### n Pensiynau

**Cynlluniau pensiwn hybrid**

Mae QAA yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) a Threfniadau Pensiwn Prifysgol Llundain (SAUL). Yn ystod y cyfnod cyfredol, roedd y ddau gynllun yn gynlluniau pensiwn hybrid, a chan bob un ran buddion diffiniedig a rhan cyfraniadau diffiniedig. Cedwir asedau buddion diffiniedig y cynlluniau mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Oherwydd natur gilyddol y cynllun, ni chaiff asedau'r cynllun eu pridiannu i sefydliadau unigol, a gosodir cyfradd gyfrannu i'r cynllun cyfan. Felly, mae QAA yn agored i risgiau actiwaraidd sy'n gysylltiedig â gweithwyr cyflogedig sefydliadau eraill ac nid oes modd ynysu ei chyfran ei hun o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun ar sail gyson a rhesymol ac felly, yn unol â gofynion adran 28 'Buddion Gweithwyr' Safon Adrodd Ariannol 102, caiff cyfraniadau i'r cynllun eu cyfrifo fel petai'r cynllun yn gynllun cyfraniadau diffiniedig. O ganlyniad, mae'r maint a godwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am gyfnod y cyfrifon. Gan fod QAA wedi mynd i gytundebau (sef y Cynlluniau Adfer sy'n pennu faint y bydd pob cyflogwr sy'n rhan o'r cynlluniau'n ariannu diffyg cyffredinol perthnasol pob un o'r cynlluniau), os bydd diffyg yn y cynlluniau, bydd QAA yn cydnabod atebolrwydd am y cyfraniadau sy'n daladwy o ganlyniad i'r cytundeb, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg a'r gost sy'n deillio o hynny, yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Os bydd gwarged yn y cynlluniau, ni chaiff unrhyw asedau eu cydnabod oherwydd nid oes darpariaeth yn Rheolau'r Cynllun i ad-dalu unrhyw gyfraniadau i'r cyflogwyr.

## 2 Y polisïau cyfrifyddu (parhad)

### Barn gritigol ar y cyfrifon

Mae *Safon Adrodd Ariannol 102* yn gwahaniaethu rhwng Cynllun Grŵp a chynllun aml-gyflogwr. Mae Cynllun Grŵp yn cynnwys casgliad o endidau o dan reolaeth gyffredinol, a hynny gyda chyflogwr noddi fel arfer. Mae cynllun aml-gyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt dan reolaeth gyffredinol ac sy'n cynrychioli (fel arfer) gynllun i ddiwydiant cyfan, megis y rheiny a ddarperir gan gynlluniau USS a SAUL. Mae cyfrifyddu i gynllun aml-gyflogwr, lle mae'r cyflogwr wedi mynd i gytundeb â'r cynllun sy'n pennu faint y bydd y cyflogwr hwnnw'n ariannu diffyg, yn arwain at gydnabod rhwymedigaeth am y cyfraniadau sy'n daladwy o ganlyniad i'r cytundeb (i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg), a chydnabyddir y gost sy'n deillio o hynny fel elw neu golled. Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod y cynlluniau a ddarperir gan gynlluniau USS a SAUL yn cyflawni'r diffiniad o gynllun aml-gyflogwr ac felly maent wedi cydnabod gwerth teg gyda disgownt y cyfraniadau cytundebol yn unol â'r cynlluniau ariannu sy'n weithredol ar ddyddiad y fantolen.

### Cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae QAA hefyd yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ac mae'r meintiau a godir ar y cyfrif incwm a gwariant yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am gyfnod y cyfrifon.

## 3 Yr incwm o weithgareddau masnachol eraill

Dyma sefyllfa ariannol gyffredinol QAA Enterprises Limited, is-gwmni masnachol ym mherchnogaeth lwyr QAA:

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Trosiant | **–** | – |
| Cost gwerthiannau a chostau gweinyddol | **(320)** | (439) |
| **Yr elw net ar gyfer y flwyddyn** | **(320)** | (439) |
| Dyma oedd yr asedau a rhwymedigaethau'r is-gwmni: | | |
| Asedau cyfredol | **353** | 3,203 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | **–** | (1,402) |
| **Cyfanswm yr asedau net** | **353** | 1,801 |

## 4 Yr incwm o fuddsoddiadau

Mae incwm y grŵp o fuddsoddiadau ar gyfer y flwyddyn wedi ei ddadansoddi fesul ffynhonnell isod:

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Incwm difidend a llog o fuddsoddiadau a ddyfynnwyd | **211,641** | 187,435 |
| Llog o arian parod mewn cyfrifon banc sy'n dwyn llog | **68,470** | 42,205 |
| **Cyfanswm yr incwm o fuddsoddiadau ar gyfer y flwyddyn** | **280,111** | 229,640 |

## 5 Yr incwm o weithgareddau elusennol

| | Nodyn | 2024 | 2023 |
|---|---|---|---|
| | | **£** | £ |
| Ffioedd aelodaeth | | **3,925,475** | 3,543,207 |
| Gweithgareddau rheoleiddio | | **631,997** | 3,245,971 |
| Contractau gyda chyrff cyllido addysg uwch | | **1,532,053** | 1,308,234 |
| Darparwyr amgen sy'n cynnig addysg uwch | | **296,333** | 255,743 |
| Contractau eraill ac incwm cysylltiedig | | **2,101,403** | 1,527,348 |
| **Cyfanswm yr incwm o weithgareddau elusennol** | | **8,487,261** | 9,880,503 |

| | Nodyn | 2024 | 2023 |
|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad fesul ffynhonnell:** | | | |
| Cynghorau cyllido addysg uwch y DU | | **1,869,156** | 1,575,626 |
| Sefydliadau addysg uwch y DU | | **3,506,936** | 3,634,824 |
| Sefydliadau addysg bellach y DU | | **334,153** | 364,248 |
| Darparwyr amgen sy'n cynnig addysg uwch y DU | | **775,802** | 544,371 |
| Eraill | | **2,034,447** | 1,664,905 |
| | | **8,520,494** | 7,783,974 |
| Rhyddhau incwm a ohiriwyd mewn blynyddoedd blaenorol | 16 | **4,142,524** | 6,235,883 |
| Gohirio incwm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gyfredol | 16 | **(4,175,757)** | (4,139,354) |
| **Cyfanswm yr incwm o weithgareddau elusennol** | | **8,487,261** | 9,880,503 |

## 6 Y gwariant ar weithgareddau elusennol

| | Nodyn | 2024 | 2023* |
|---|---|---|---|
| | | **£** | £ |
| Safonau | | **1,604,354** | 1,925,743 |
| Sicrwydd a Gwelliant | | **4,839,584** | 6,234,201 |
| Rhyngwladol | | **1,843,183** | 1,782,006 |
| Arweinyddiaeth | | **215,283** | 176,117 |
| **Cyfanswm y gwariant ar weithgareddau elusennol cyn darpariaeth pensiynau** | | **8,502,404** | 10,118,067 |
| Darpariaeth pensiynau - cyfraniadau i adfer diffygion (wedi eu cynnwys uchod) | 21 | **(91,277)** | (221,658) |
| Credydwyd i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol - newid mewn cyfraniadau disgwyliedig i adfer diffygion yn y dyfodol | | **(2,650,918)** | (550,019) |
| Darpariaeth pensiynau - dad-ddirwyn disgowntiau | 21 | **61,434** | 110,614 |
| **Cyfanswm y gwariant ar weithgareddau elusennol** | | **5,821,643** | 9,457,004 |

## 7 Dadansoddiad o'r gwariant ar weithgareddau elusennol

| | Gweithgareddau elusennol | | | | Cyfanswm y gwariant ar weithgareddau elusennol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Safonau | Sicrwydd a Gwelliant | Rhyngwladol | Arweinyddiaeth | **2024** | 2023* |
| | £ | £ | £ | £ | **£** | £ |
| **Costau uniongyrchol** | | | | | | |
| Costau staffio | 996,307 | 2,290,580 | 922,179 | 187,651 | **4,396,717** | 4,604,487 |
| Costau adolygu eraill | 55,282 | 656,415 | 255,861 | 27,632 | **995,190** | 1,362,552 |
| Costau uniongyrchol eraill | 97 | 3,306 | 26,240 | – | **29,643** | 281,796 |
| **Cyfanswm y costau uniongyrchol** | **1,051,686** | **2,950,301** | **1,204,280** | **215,283** | **5,421,550** | 6,248,835 |
| **Costau cefnogi** | | | | | | |
| Costau staffio | 374,790 | 1,294,806 | 450,769 | | **2,120,365** | 1,799,748 |
| Costau mewn perthynas ag adeiladau a swyddfeydd | 38,606 | 144,116 | 36,659 | | **219,381** | 1,039,765 |
| Technoleg gwybodaeth | 47,896 | 131,312 | 46,774 | | **225,982** | 531,070 |
| Costau cyllid | 7,853 | 23,887 | 10,621 | | **42,361** | 53,934 |
| Dibrisiad | 16,267 | 58,036 | 15,886 | | **90,189** | 96,868 |
| Costau adnoddau dynol a datblygiad staff | 32,327 | 88,629 | 31,570 | | **152,526** | 208,141 |
| Costau cefnogi eraill | 8,862 | 69,207 | 11,362 | | **89,431** | 18,133 |
| Costau llywodraethu | 26,067 | 79,291 | 35,261 | | **140,619** | 121,573 |
| **Cyfanswm y costau cefnogi** | **552,669** | **1,889,283** | **638,902** | | **3,080,854** | 3,869,232 |
| **Y gwariant ar weithgareddau elusennol cyn ystyried y ddarpariaeth pensiynau** | 1,604,354 | 4,839,584 | 1,843,183 | 215,283 | **8,502,404** | 10,118,067 |
| Darpariaeth pensiynau - (gwarged net)/cyfraniadau net | | | | | **(2,742,195)** | (771,677) |
| Darpariaeth pensiynau - dad-ddirwyn disgowntiau | | | | | **61,434** | 110,614 |
| **Cyfanswm y gwariant elusennol** | | | | | **5,821,643** | 9,457,004 |

## 8 Yr incwm net ar gyfer y flwyddyn ariannol

| | Nodyn | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|---|
| Nodir yr incwm net ar ôl codi/(derbyn): | | | |
| Archwilwyr allanol - gwasanaethau archwilio | | **19,800** | 19,800 |
| Archwilwyr allanol - gwasanaethau eraill | | **4,158** | 2,322 |
| Archwilwyr mewnol - gwasanaethau archwilio | | **–** | 3,600 |
| Yswiriant indemniad proffesiynol | | **61,989** | 57,574 |
| Asedau anniriaethol sefydlog | | | |
| Amorteiddiad | | **35,178** | 48,771 |
| Asedau diriaethol sefydlog | | | |
| Dibrisiad | | **55,011** | 159,056 |
| Darpariaeth amhariad | | **–** | (119,196) |
| Colled ar waredu | | **7,855** | – |
| Prydlesi gweithredu | | | |
| Tir ac adeiladau | | **81,239** | 283,419 |
| Eraill | | **–** | 1,434 |
| Costau o gyfnewid arian tramor | | **682** | 3,637 |
| Cyfraniadau pensiwn gan gyflogwyr | 23 | **850,188** | 947,027 |

## 9 Dadansoddiad o'r costau staff

| | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|
| Dyma oedd cyfanswm y costau staff: | | |
| Cyflogau | **5,099,610** | 5,004,648 |
| Cyfraniadau Yswiriant Gwladol gan gyflogwyr | **548,974** | 539,094 |
| Cyfraniadau pensiwn taladwy | **850,188** | 947,027 |
| | **6,498,772** | 6,490,769 |
| Staff a ddarparwyd gan asiantaethau cyflogaeth | **18,415** | 157,554 |
| **Cyfanswm y costau staff cyn ailstrwythuro ac addasiadau ar gyfer rhwymedigaethau o ran darpariaeth pensiynau** | **6,517,187** | 6,648,323 |
| Cyfraniadau i adfer diffygion sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn (wedi eu cynnwys yn y cyfraniadau a dalwyd a nodir uchod) | **(91,277)** | (221,658) |
| Gostyngiad mewn cyfraniadau disgwyliedig i adfer diffygion yn y dyfodol | **(2,650,918)** | (550,019) |
| **Cyfanswm y costau staff a godwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol** | **3,774,992** | 5,986,646 |

## 9 Dadansoddiad o'r costau staff (parhad)

| | **2024** | 2023* |
|---|---|---|
| | **Nifer** | Nifer |
| Safonau | **23** | 20 |
| Sicrwydd a Gwelliant | **51** | 46 |
| Rhyngwladol | **26** | 25 |
| Arweinyddiaeth | **9.5** | 11 |
| **Cyfanswm nifer cyfartalog y gweithwyr cyflogedig ar sail gyfwerth ag amser llawn** | **109.5** | 102 |
| **Cyfanswm nifer cyfartalog y gweithwyr cyflogedig ar sail cyfrif pennau** | **125** | 121 |

Yn ystod y flwyddyn, ymadawodd deg aelod o'r staff, ond ni adawodd unrhyw un ohonynt o ganlyniad i ddiswyddiad neu derfynu contract. (Y taliadau cysylltiedig ar gyfer 2023 oedd £126,518).

Dyma oedd nifer y gweithwyr cyflogedig yr oedd eu taliadau a ddiffiniwyd i bwrpasau trethi'n fwy na £60,000:

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **Nifer** | Nifer |
| £140,000 - £149,999 | **1** | 1 |
| £130,000 - £139,999 | **–** | – |
| £100,000 - £109,999 | **1** | – |
| £90,000 - £99,999 | **1** | 3 |
| £80,000 - £89,999 | **1** | – |
| £70,000 - £79,999 | **4** | 4 |
| £60,000 - £69,999 | **12** | 4 |

Roedd yr holl weithwyr cyflogedig oedd yn ennill mwy na £60,000 yn cyfranogi yng Nghynllun Pensiwn y Prifysgolion (gwelwch nodyn 23). Dyma oedd y cyfanswm a dalwyd i'r cynllun ar gyfer y gweithwyr cyflogedig hyn:

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Y cyfraniadau gan gyflogwyr | **257,563** | 237,925 |

## 10 Y taliadau i gyfarwyddwyr a rheolwyr allweddol

Mae rheolwyr allweddol yr elusen yn cynnwys yr ymddiriedolwyr a'r uwch weithredwyr (gwelwch Adroddiad y Cyfarwyddwyr uchod).

Ni thalwyd unrhyw daliadau i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn. Ad-dalwyd gwerth £2,081 o dreuliau i 8 ymddiriedolwr yn ystod y flwyddyn (2023: £2,398 i 11 ymddiriedolwr). Roedd y treuliau a dalwyd yn ymwneud yn gyfan gwbl â theithio a mân bethau.

Cyfanswm y buddion i weithwyr (gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn gan y Cyflogwyr a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol gan y Cyflogwyr) a dderbyniwyd gan uwch weithredwyr yr elusen a'r grŵp oedd £567,211 (2023: £572,111).

Y Prif Weithredwr yw'r gweithiwr cyflogedig sydd â'r cyflog uchaf, a derbyniodd daliadau a budd-daliadau, gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol gan y Cyflogwr, o £194,093 (2023: £194,275) yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, prynodd QAA Yswiriant Atebolrwydd Cyfarwyddwyr a Swyddogion (oedd yn cynnwys Yswiriant Indemniad i Ymddiriedolwyr).

## 11 Trethi

O dan ran II *Deddf Treth Gorfforaeth 2010*, nid yw'r elusen yn atebol i drethi ar ei gweithgareddau elusennol. Bydd elw'r is-gwmni anelusennol yn cael ei roi fel rhodd cymorth i'r rhiant-elusen fel arfer. Felly, yn gyffredinol, nid yw'r grŵp yn dioddef Treth Gorfforaeth ar ei weithgareddau masnachol.

## 12 Asedau anniriaethol sefydlog

**Y Grŵp a'r Elusen**

| | Meddalwedd cyfrifiadurol | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Cost** | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 653,515 | **653,515** |
| Ychwanegiad | – | **–** |
| Gwarediadau | (61,817) | **(61,817)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2024** | 591,698 | **591,698** |
| **Amorteiddiad** | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 520,578 | **520,578** |
| Y gost ar gyfer y flwyddyn | 35,178 | **35,178** |
| Gwarediad | (61,817) | **(61,817)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2024** | 493,939 | **493,939** |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2024** | 97,759 | **97,759** |
| Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2023 | 132,937 | **132,937** |

## 13 Asedau diriaethol sefydlog

**Y Grŵp a'r Elusen**

| | Gwelliannau i eiddo prydlesol | Offer cyfrifiadurol | Dodrefn ac offer eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 1,280,210 | 3,836,036 | 550,430 | 5,666,676 |
| Ychwanegiadau | – | 49,116 | – | 49,116 |
| Gwarediadau | (1,280,210) | (3,417,513) | (407,801) | (5,105,524) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2024** | **–** | **467,639** | **142,629** | **610,268** |
| **Dibrisiad** | | | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 1,259,996 | 3,795,315 | 546,979 | 5,602,290 |
| Y gost ar gyfer y flwyddyn | 13,436 | 40,281 | 1,294 | 55,011 |
| Gwarediadau | (1,273,432) | (3,417,514) | (406,723) | (5,097,669) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2024** | **–** | **418,082** | **141,550** | **559,632** |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2024** | **–** | **49,557** | **1,079** | **50,636** |
| Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2023 | 20,214 | 40,721 | 3,451 | 64,386 |

Ym marn y cyfarwyddwyr nid yw gwerth yr asedau sefydlog ar y farchnad yn gwahaniaethu'n sylweddol oddi wrth eu gwerth ar bapur.

## 14 Y buddsoddiadau asedau sefydlog

| | Buddsoddiadau a ddyfynnwyd | Buddsoddiadau heb eu dyfynnu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Delir gan y grŵp** | | | |
| Ar 1 Awst 2023 | **6,016,331** | **–** | **6,016,331** |
| Ychwanegiadau yn ôl eu cost | 6,137,731 | – | 6,137,731 |
| Gwarediadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar ddechrau'r flwyddyn neu eu cost os cawsent eu prynu yn ystod y flwyddyn | (6,224,344) | – | (6,224,344) |
| Cynnydd net yn yr arian parod a ddelir a thaliadau heb eu talu | 670,168 | – | 670,168 |
| Enillion net ar ailbrisio eu gwerth ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn | (12,129) | – | (12,129) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2024** | **6,587,757** | **–** | **6,587,757** |
| **Delir gan yr elusen** | | | |
| Ar 1 Awst 2023 | **6,016,331** | **1** | **6,016,332** |
| Ychwanegiadau yn ôl eu cost | 6,137,731 | – | 6,137,731 |
| Gwarediadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar ddechrau'r flwyddyn neu eu cost os cawsent eu prynu yn ystod y flwyddyn | (6,224,344) | – | (6,224,344) |
| Cynnydd net yn yr arian parod a ddelir a thaliadau heb eu talu | 670,168 | – | 670,168 |
| Enillion net ar ailbrisio eu gwerth ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn | (12,129) | – | (12,129) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2024** | **6,587,757** | **1** | **6,587,758** |

Mae'r buddsoddiadau a ddyfynnwyd yn cael eu hailbrisio a'u datgan yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar 31 Gorffennaf 2024.

Yn ystod y flwyddyn hon, cafodd y portffolio buddsoddi cyfan ei werthu ac yna ei ail-fuddsoddi er mwyn osgoi buddsoddi mewn tanwydd ffosil.

Cofnodir buddsoddiadau heb eu dyfynnu yn ôl eu cost. Mae QAA yn dal un gyfran £1 arferol (100%) yn QAA Enterprises Limited, sef is-gwmni masnachol ym mherchnogaeth lwyr QAA sydd wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif 07588108, ac mae ganddo ei brif swyddfa yn Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB.

## 14 Y buddsoddiadau asedau sefydlog (parhad)

Mae buddsoddiadau a ddyfynnwyd wedi eu cynnwys yn ôl eu gwerth ar y farchnad a'u dal fel a ganlyn:

| | **Y Grŵp a'r Elusen ar 31 Gorffennaf 2024** | | Y Grŵp a'r Elusen ar 31 Gorffennaf 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cost** | **Gwerth ar y farchnad** | Cost | Gwerth ar y farchnad |
| | **£** | **£** | £ | £ |
| Rhestrir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig | | | | |
| - yn y DU | **5,929,709** | **5,917,582** | 5,888,737 | 6,016,325 |
| - y tu allan i'r DU | **–** | **–** | – | – |
| Arian parod a thaliadau sydd ar y gweill a ddelir yn rhan o'r portffolio buddsoddi | **670,175** | **670,175** | 7 | 7 |
| | **6,599,884** | **6,587,757** | 5,888,744 | 6,016,332 |

## 15 Dyledwyr

| | **Y Grŵp** | | **Yr Elusen** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2024** | 2023 | **2024** | 2023 |
| | **£** | £ | **£** | £ |
| Dyledwyr masnach | **967,205** | 1,807,989 | **967,205** | 1,807,989 |
| Mân ddyledwyr | **422** | 3,163 | **422** | 3,163 |
| Rhagdaliadau | **168,186** | 299,705 | **168,186** | 299,705 |
| Incwm cronedig | **67,288** | – | **67,288** | – |
| Yr is-gwmni | | – | | – |
| | **1,203,101** | 2,110,857 | **1,203,101** | 2,110,857 |

Ar hyn o bryd, nid ydym yn cadw darpariaeth ar gyfer dyledion ansicr (roedd darpariaeth o'r fath o £0 yn 2023).

## 16 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | Y Grŵp | | Yr Elusen | |
|---|---|---|---|---|
| | **2024** | 2023 | **2024** | 2023 |
| | **£** | £ | **£** | £ |
| Credydwyr masnach | **90,376** | 502,563 | **90,376** | 501,861 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | **157,697** | 144,890 | **157,697** | 144,890 |
| Cyfraniadau pensiwn | **94,657** | 118,996 | **94,657** | 118,996 |
| Credydwyr eraill | **35,139** | 272,553 | **35,139** | 272,553 |
| Croniadau | **474,003** | 559,366 | **474,004** | 558,666 |
| Incwm gohiriedig | **4,244,327** | 4,211,094 | **4,244,327** | 4,211,094 |
| | **5,096,199** | 5,809,462 | **5,096,200** | 5,808,060 |
| Dyma oedd y symudiad yn yr incwm gohiriedig: | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **4,211,094** | 6,307,623 | **4,211,094** | 6,307,623 |
| Rhyddhau incwm a ohiriwyd mewn blynyddoedd blaenorol | **(4,142,524)** | (6,235,883) | **(4,142,523)** | (6,235,883) |
| Yr incwm gohiriedig a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gyfredol | **4,175,757** | 4,139,354 | **4,175,756** | 4,139,354 |
| Ar ddiwedd y flwyddyn | **4,244,327** | 4,211,094 | **4,244,327** | 4,211,094 |

Mae'r incwm gohiriedig yn ymwneud ag ymrwymiadau cytundebol na fyddent wedi eu darparu tan y flwyddyn nesaf. Felly, nid yw'n briodol cydnabod yr incwm ar y cam yma.

## 17 Trefniadau ar gyfer prydlesi gweithredu

Dyma oedd cyfanswm y taliadau prydles isaf yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu na ellir eu diddymu:

| | Y Grŵp a'r Elusen | |
|---|---|---|
| | **2024** | 2023 |
| | **£** | £ |
| **Tir ac adeiladau** | | |
| O fewn blwyddyn | **–** | 62,595 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | **–** | 36,524 |
| | **–** | 99,119 |

Ildiwyd y brydles yn y flwyddyn ariannol hon wrth i ni symud allan o'r swyddfeydd yn yr Alban.

## 18 Dadansoddiad o'r ymrwymiadau cyfalaf

| | Y Grŵp a'r Elusen | |
|---|---|---|
| | **2024** | 2023 |
| | **£** | £ |
| Contractiwyd ar ei gyfer ond ni chafodd ei ddarparu | **–** | 25,410 |
| Cafodd ei awdurdodi ond ni chontractiwyd ar ei gyfer eto | **–** | – |
| | **–** | 25,410 |

## 19 Trafodion gyda phartïon cysylltiedig

Oherwydd natur gweithrediadau QAA a chyfansoddiad Bwrdd Cyfarwyddwyr QAA, cynhelir trafodion gyda sefydliadau y gallai aelod o'r Bwrdd gael budd ohonynt. Cynhelir yr holl drafodion sy'n ymwneud â sefydliadau y gallai aelod o'r Bwrdd gael budd ohonynt o hyd braich ac yn unol â rheoliadau ariannol a threfniadau caffael arferol QAA. Ni phennwyd unrhyw drafodion y dylid eu datgelu o dan *Safon Adrodd Ariannol 8: Datgelu Partïon Cysylltiedig*.

Mae QAA yn aelod o *Scottish Credit and Qualifications Framework Partnership*, sef cwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi ei gofrestru yn yr Alban o dan y rhif SC311573.

## 20 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

Dyma'r darpariaethau a wnaed:

**Tâl gwyliau**

Dyma'r symudiad yn y darpariaethau yn ystod y flwyddyn:

| | **Tâl gwyliau** |
|---|---|
| | £ |
| Ar 1 Awst 2023 | **121,069** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | **27,684** |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | **–** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2024** | **148,753** |

**Adfer adeiladau**

Pwrpas y ddarpariaeth ariannol ar gyfer *Adfer adeiladau* yw talu cost adfer ein hadeilad yng Nghaerloyw i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd tymor y drwydded berthnasol.

| | **Adfer adeiladau** |
|---|---|
| | £ |
| Ar 1 Awst 2023 | **300,000** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | **(289,290)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2024** | **10,710** |

## 21 Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau pensiynau

Dyma gyfanswm y gost pensiynau a godwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol:

| | Y Grŵp a'r Elusen | |
|---|---|---|
| | **2024** | 2023 |
| | **£** | £ |
| Cyfraniadau gan gyflogwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | **850,188** | 947,027 |
| Cyfraniadau i adfer diffygion sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn (wedi eu cynnwys yn y cyfraniadau gan gyflogwyr uchod) | **(91,277)** | (221,658) |
| Newid mewn cyfraniadau disgwyliedig i adfer diffygion yn y dyfodol | **(2,650,918)** | (550,019) |
| Cyfanswm y gost pensiynau a godwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol | **(1,892,007)** | 175,350 |

Dyma'r symudiad yn y ddarpariaeth:

| | Y Grŵp a'r Elusen | |
|---|---|---|
| | **2024** | 2023 |
| | **£** | £ |
| Ar 1 Awst | **2,680,761** | 3,341,824 |
| Codwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol - cyfraniadau i adfer diffygion sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | **(91,277)** | (221,658) |
| Codwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol - newid mewn cyfraniadau disgwyliedig i adfer diffygion yn y dyfodol | **(2,650,918)** | (550,019) |
| Dad-ddirwyn disgowntiau | **61,434** | 110,614 |
| Ar ddiwedd y flwyddyn | **–** | 2,680,761 |

## 22 Dadansoddiad o'r cronfeydd elusennol

### Dadansoddiad o symudiadau mewn cronfeydd anghyfyngedig

| | **Y cronfeydd ar 1 Awst 2023** | Adnoddau sy'n dod i mewn | Adnoddau a wariwyd | Trosglwyddiadau | Enillion a cholledion | **Y cronfeydd ar 31 Gorffennaf 2024** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | £ | £ | £ | £ | **£** |
| **Cronfeydd dynodedig:** | | | | | | |
| Arloesi a Datblygu | 391,721 | – | (192,900) | – | – | **198,821** |
| Trawsnewid Busnes | – | – | – | 156,000 | – | **156,000** |
| **Cyfanswm y cronfeydd dynodedig** | 391,721 | – | (192,900) | 156,000 | – | **354,821** |
| **Cronfa gyffredinol** | 2,698,865 | 8,767,372 | (5,641,745) | (156,000) | 372,466 | **6,040,958** |
| **Cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig** | 3,090,586 | 8,767,372 | (5,834,645) | – | 372,466 | **6,395,779** |

| | **Y cronfeydd ar 1 Awst 2022** | Adnoddau sy'n dod i mewn | Adnoddau a wariwyd | Trosglwyddiadau | Enillion a cholledion | **Y cronfeydd ar 31 Gorffennaf 2023** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | £ | £ | £ | £ | **£** |
| **Cronfeydd dynodedig:** | | | | | | |
| Arloesi a Datblygu | **343,694** | – | (91,973) | 140,000 | – | 391,721 |
| Adfer adeiladau | **459,000** | – | (300,000) | (159,000) | – | – |
| **Cyfanswm y cronfeydd dynodedig** | **802,694** | – | (391,973) | (19,000) | – | 391,721 |
| **Cronfa gyffredinol** | **1,730,140** | 10,110,143 | (9,078,235) | 19,000 | (82,183) | 2,698,865 |
| **Cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig** | **2,532,834** | 10,110,143 | (9,470,208) | – | (82,183) | 3,090,586 |

Mae'r gronfa ddynodedig ar gyfer *Arloesi a Datblygu* wedi ei chlustnodi ar gyfer "arloesi mewn cynhyrchion a gwasanaethau er budd addysg uwch y DU yn y tymor hir".

## 22 Dadansoddiad o'r cronfeydd elusennol (parhad)

**Dadansoddiad o asedau net y grŵp fesul cronfa**

| | Cronfa gyffredinol | Cronfeydd dynodedig | **Y cyfanswm ar gyfer 2024** |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | **£** |
| Asedau diriaethol sefydlog | 50,636 | – | **50,636** |
| Asedau anniriaethol sefydlog | 97,759 | – | **97,759** |
| Buddsoddiadau asedau sefydlog | 6,587,757 | – | **6,587,757** |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 3,357,367 | 354,821 | **3,712,188** |
| Rhwymedigaethau cyfredol net eraill | (3,893,098) | – | **(3,893,098)** |
| Darpariaethau | (159,463) | – | **(159,463)** |
| **Cyfanswm yr asedau net ar 31 Gorffennaf 2024** | **6,040,958** | **354,821** | **6,395,779** |

| | Cronfa gyffredinol | Cronfeydd dynodedig | **Y cyfanswm ar gyfer 2023** |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | **£** |
| Asedau diriaethol sefydlog | 64,386 | – | **64,386** |
| Asedau anniriaethol sefydlog | 132,937 | – | **132,937** |
| Buddsoddiadau asedau sefydlog | 6,016,332 | – | **6,016,332** |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 3,285,646 | 391,721 | **3,677,367** |
| Rhwymedigaethau cyfredol net eraill | (3,698,605) | – | **(3,698,605)** |
| Darpariaethau | (3,101,831) | – | **(3,101,831)** |
| **Cyfanswm yr asedau net ar 31 Gorffennaf 2023** | **2,698,865** | **391,721** | **3,090,586** |

## 23 Pensiynau (cynlluniau buddion diffiniedig)

Mae QAA yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn buddion diffiniedig. Dyma'r cyfraniadau pensiwn oedd yn daladwy gan y cyflogwr:

| | Y Grŵp a'r Elusen | |
|---|---|---|
| | **2024** | 2023 |
| | **£** | £ |
| Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) | **620,875** | 734,969 |
| Trefniadau Pensiwn Prifysgol Llundain (SAUL) | **229,313** | 212,058 |
| | **850,188** | 947,027 |
| Cyfraniadau gan gyflogwyr oedd heb eu talu ar ddyddiad y fantolen (wedi eu cynnwys uchod) | **94,657** | 116,068 |

Yn ychwanegol at yr adran Cyflog Terfynol yng nghynllun USS ar gyfer aelodau cyfredol, bydd y gweithwyr cyflogedig sy'n ymuno â'r Cynllun ar ôl 30 Medi 2011 yn ymuno â'r adran Buddion Gyrfa-gyfan wedi eu Hailbrisio [Career Revalued Benefits] (yn atebol i nifer o reolau trosiannol). O 1 Ebrill 2016, symudwyd yr holl aelodau o gynllun USS i'r adran Adeiladu Incwm Ymddeol [Retirement Income Builder].

Yn yr un modd, bydd y gweithwyr cyflogedig sy'n ymuno â chynllun SAUL ar ôl 30 Mehefin 2012 yn ymuno â'r adran Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi eu Hailbrisio (CARE) [Career Average Revalued Earnings] o'r cynllun hwnnw (yn atebol i nifer o reolau trosiannol). Ar 1 Ebrill 2016, symudwyd yr holl aelodau yn yr adran Cyflog Terfynol i'r adran CARE.

Dyma gyfraddau'r cyfraniadau fel canran o'r cyflogau pensiynadwy:

| | | **Cyflogwr** | Gweithiwr cyflogedig |
|---|---|---|---|
| Cynllun pensiwn USS - adran Adeiladu Incwm Ymddeol | O 1 Ebrill 2023 hyd 31 Rhagfyr 2023 | **21.40%** | 9.80% |
| | O 1 Ionawr 2024 ymlaen | **14.50%** | 6.10% |
| Cynllun pensiwn SAUL - adran Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi eu Hailbrisio | O 1 Ionawr 2023 ymlaen | **21.00%** | 6.00% |

**Cynllun Pensiwn y Prifysgolion**

Dyddiad y prisiad actiwaraidd cyflawn diweddaraf o'r adran Adeiladu Incwm Ymddeol oedd 31 Mawrth 2023 (dyddiad y prisiad), a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau.

Gan na all QAA ynysu ei chyfran ei hun o asedau a rhwymedigaethau'r adran Adeiladu Incwm Ymddeol (buddion diffiniedig) yng nghynllun USS, mae'r datgeliadau canlynol yn adlewyrchu'r rhai sy'n berthnasol i'r asedau a'r rhwymedigaethau hynny yn eu cyfanrwydd.

## 23 Pensiynau (cynlluniau buddion diffiniedig) (parhad)

Prisiad 2023 oedd y seithfed prisiad o'r cynllun dan y drefn gyllido benodol i'r cynllun a gyflwynwyd gan *Ddeddf Pensiynau 2004*, sy'n gofyn i gynlluniau gael asedau digonol a phriodol i dalu eu darpariaethau technegol. Ar ddyddiad y prisiad, £73.1 biliwn oedd gwerth asedau'r cynllun a £65.7 biliwn oedd gwerth darpariaethau technegol y cynllun, gan ddangos £7.4 biliwn o warged a chymhareb gyllido o 111%. Roedd gwarged yng nghynllun USS ar sail ei Ddarpariaethau Technegol, felly nid oedd angen unrhyw gyfraniadau pellach i adfer diffygion. Mae'r Ymddiriedolwr a'r cyflogwyr wedi cytuno y bydd y cyfraniadau parhaus gan y cyflogwyr yn gostwng o gyfradd o 21.6% o'r cyflogau i gyrraedd 14.5% o'r cyflogau o 1 Ionawr 2024 ymlaen. Rhyddhawyd diffyg y flwyddyn flaenorol, ac ni chydnabuwyd unrhyw asedau oherwydd nid oes darpariaeth yn Rheolau'r Cynllun i ad-dalu unrhyw gyfraniadau i'r cyflogwyr.

Mae'r prif dybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd ym mhrisiad 2023 wedi eu disgrifio isod. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn y Datganiad o Egwyddorion Cyllido.

| | |
|---|---|
| Tybiaeth CPI<br><br>Cynyddiadau mewn pensiynau (ar sail terfyn isaf o 0%) | 3% y flwyddyn (ar sail y lefel o CPI a ddisgwylir ar gyfartaledd yn y tymor hir, sy'n weddol gyson â disgwyliadau hirdymor y farchnad)<br><br>Tybiaeth CPI a 3% ychwanegol |
| Cyfradd y disgownt (cyfraddau'r dyfodol) | Y gromlin arennill Llog Sefydlog sy'n gysylltiedig â stociau'r llywodraeth ac, yn ychwanegol:<br>O dan oedran ymddeol: 2.5% y flwyddyn<br>Dros oedran ymddeol: 0.9% y flwyddyn |

Mae'r brif dybiaeth ddemograffig a ddefnyddir yn ymwneud â thybiaethau ynghylch marwolaeth. Seiliwyd y tybiaethau hyn ar ddadansoddiad o brofiad y cynllun a wnaed yn rhan o brisiad actiwaraidd 2023. Dyma'r tybiaethau ynghylch marwolaeth a ddefnyddir yn y ffigyrau yma:

| **Tabl sail marwolaeth** | **Prisiad 2023** |
|---|---|
| | 101% o S2PMA 'ysgafn' ar gyfer gwrywod a 95% o S3PFA ar gyfer benywod. |
| Gwelliannau yn y dyfodol o ran marwolaeth: | CMI_2021 gyda pharamedr llyfnhau o 7.5, ychwanegiad cychwynnol o 0.4% y flwyddyn, paramedrau w2020 ac w2021 o 10%, a chyfradd gwelliant tymor hir o 1.8% y flwyddyn ar gyfer gwrywod ac 1.6% y flwyddyn ar gyfer benywod. |

### Trefniadau Pensiwn Prifysgol Llundain

Mae'r QAA yn cymryd rhan yn Nhrefniadau Pensiwn Prifysgol Llundain [Superannuation Arrangements for the University of London (SAUL)] sy'n gynllun buddion diffiniedig canolog yn y Deyrnas Unedig a gontractiwyd allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth (cyn mis Ebrill 2016).

Mae cynllun SAUL yn gynllun pensiwn a reolir yn annibynnol ar gyfer y staff anacademaidd mewn mwy na 50 o golegau a sefydliadau sydd â chysylltiad ag addysg uwch.

Ar hyn o bryd, mae buddion pensiwn a gronnir yng nghynllun SAUL yn adeiladu ar sail Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi eu Hailbrisio (CARE).

Ni ddisgwylir y bydd QAA yn atebol i gynllun SAUL am unrhyw ymrwymiadau o dan reolau cynllun SAUL sydd gan gyflogwyr eraill sy'n rhan o'r cynllun ar hyn o bryd, ond os bydd unrhyw gyflogwyr sy'n rhan o gynllun SAUL yn mynd yn fethdalwyr, gellir rhannu maint unrhyw ddiffyg yng nghyllid pensiynau'r cyflogwr hwnnw (os nad oes modd cael y cyllid hwnnw yn ôl drwy ryw ddull arall) rhwng y cyflogwyr eraill sy'n rhan o'r cynllun a'i adlewyrchu yn y prisiad actiwaraidd nesaf.

## 23 Pensiynau (cynlluniau buddion diffiniedig) (parhad)

**Polisi cyllido**

Amcan cyllido statudol cynllun SAUL yw cael asedau sy'n ddigonol ac yn briodol i dalu'r costau a grëir gan yr Ymddiriedolwr wrth dalu buddion cynllun SAUL wrth iddynt ddod yn ddyledus (y 'Darpariaethau Technegol'). Mae'r Ymddiriedolwr yn mabwysiadu tybiaethau sydd, o'u cymryd yn gyfan, wedi eu bwriadu i fod yn ddigon gochelgar i sicrhau bod y pensiynau a'r buddion sy'n cael eu talu'n barod yn gallu parhau i gael eu talu ac i sicrhau bod modd talu'r ymrwymiadau sy'n codi o hawliau pensiwn cronnus yr aelodau.

Mae'r tybiaethau ynghylch y Darpariaethau Technegol yn cynnwys digon o elw i ganiatáu ar gyfer y posibilrwydd y gallai pethau droi allan yn waeth na'r disgwyl. Fodd bynnag, nid yw'r dull cyllido a'r tybiaethau'n diddymu'r risg yn gyfan gwbl y gallai'r Darpariaethau Technegol fod yn annigonol i ddarparu buddion yn y dyfodol.

Cynhelir prisiad actiwaraidd ffurfiol o gynllun SAUL bob tair blynedd gan actiwari annibynnol sydd â chymhwyster proffesiynol. Dyddiad gweithredu'r prisiad actiwaraidd diwethaf oedd 31 Mawrth 2023. Cynhelir adolygiadau anffurfiol o sefyllfa cynllun SAUL rhwng y prisiadau ffurfiol, i adlewyrchu newidiadau yn amodau'r farchnad, gwybodaeth am lif arian a chroniadau buddion newydd.

Cytunwyd ar yr egwyddorion cyllido ym mis Mehefin 2024, a bwriedir adolygu'r egwyddorion yn rhan o'r prisiad actiwaraidd ffurfiol nesaf o gynllun SAUL yn 2026.

Yn y prisiad ar 31 Mawrth 2023, roedd cynllun SAUL yn dangos cymhareb gyllido o 105% ar sail ei Ddarpariaethau Technegol. Roedd gwarged yng nghynllun SAUL ar sail ei Ddarpariaethau Technegol, felly nid oedd angen unrhyw gyfraniadau i adfer diffygion. Mae'r Ymddiriedolwr a'r cyflogwyr wedi cytuno y bydd y cyfraniadau parhaus gan y cyflogwyr yn gostwng o gyfradd o 21% o gyflogau CARE i gyrraedd 19% o gyflogau CARE o 1 Medi 2024 ymlaen.

Mae QAA yn cymryd rhan mewn un cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Cedwir asedau'r cynllun ar wahân i asedau'r elusen mewn cronfa a weinyddir yn annibynnol. Mae cost y pensiynau a godir yn cynrychioli cyfraniadau sy'n daladwy gan yr elusen i'r gronfa a dyma oeddent:

| | **Y Grŵp a'r Elusen** | |
|---|---|---|
| | **2024** | 2023 |
| | **£** | £ |
| The People's Pension | **5,171** | 15,967 |
| Cyfraniadau gan gyflogwyr oedd heb eu talu ar ddyddiad y fantolen | **561** | 2,929 |

## 24 Cysoni incwm net gyda llif arian parod net o weithgareddau gweithredu

| | Y Grŵp | | Yr Elusen | |
|---|---|---|---|---|
| | **2024** | 2023 | **2024** | 2023 |
| | **£** | £ | **£** | £ |
| **Yr incwm net ar gyfer y flwyddyn** | **3,305,193** | 857,753 | **3,306,641** | 858,191 |
| **Addasiadau ar gyfer:** | | | | |
| Maint y dibrisiad | **90,189** | 207,828 | **90,189** | 207,828 |
| Darpariaeth amhariad | **–** | (110,960) | **–** | (110,960) |
| Colled ar waredu | **7,855** | 7,855 | | |
| (Enillion)/colledion ar fuddsoddiadau | **(372,466)** | 82,183 | **(372,466)** | 82,183 |
| Incwm o fuddsoddiadau | **(280,111)** | (229,640) | **(280,111)** | (229,640) |
| Gostyngiad mewn dyledwyr | **907,756** | 1,265,674 | **907,756** | 1,268,251 |
| (Gostyngiad) mewn credydwyr | **(713,263)** | (2,040,547) | **(711,861)** | (2,041,349) |
| (Gostyngiad) mewn darpariaethau | **(2,942,367)** | (687,518) | **(2,942,367)** | (687,518) |
| **Yr arian parod net a ddarparwyd gan y gweithgareddau gweithredu** | **2,786** | (655,227) | **5,636** | (653,014) |

## 25 Dadansoddiad o arian parod a chyfwerth ag arian parod

| | Y Grŵp | | Yr Elusen | |
|---|---|---|---|---|
| | **2024** | 2023 | **2024** | 2023 |
| | **£** | £ | **£** | £ |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw - asedau hylifol | **3,712,188** | 3,677,367 | **3,711,835** | 3,674,164 |
| Arian parod yn y banc - buddsoddiadau asedau sefydlog | **670,175** | 7 | **670,175** | 7 |
| **Arian parod yn y banc ac mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn** | **4,382,363** | 3,677,374 | **4,382,010** | 3,674,171 |

## 26 Cysoni'r ddyled net

| | **Ar 1 Awst 2023** | Llif arian | **Ar 31 Gorffennaf 2024** |
|---|---|---|---|
| | **£** | £ | **£** |
| Arian parod | **3,677,367** | 34,821 | **3,712,188** |
| Cyfwerth ag arian parod | **7** | 670,168 | **670,175** |
| **Cyfanswm** | **3,677,374** | 704,989 | **4,382,363** |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau | *Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon ac Adroddiadau gan Elusennau* sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r *Safon Adrodd Ariannol* sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2015) |
| S2P | Ail Bensiwn y Wladwriaeth [State Second Pension] |
| Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) | Sef y *Safon Adrodd Ariannol* sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon |
| SAUL | Trefniadau Pensiwn Prifysgol Llundain [Superannuation Arrangements for the University of London] |
| SOFA | Datganiad o Weithgareddau Ariannol [Statement of Financial Activity] |
| USS | Cynllun Pensiwn y Prifysgolion [Universities Superannuation Scheme] |

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557050
Gwefan: www.qaa.ac.uk